



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – Diweddariad ar y Llif Prosiectau

Mawrth 2021

Creu dyfodol gwyrdd

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	1
-------------------------	---

Atodiad 1: Llif Prosiectau Llywodraeth Cymru	3
--	---

Sectorau

Datblygu Economaidd	4	Ynni	23
Trafnidiaeth	10	Tai	26
Yr Amgylchedd – Rheoli Perygl	17	Adfywio	30
Llifogydd ac Arfordiroedd		Addysg	32
Yr Amgylchedd – Gwastraff	20	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	41

Atodiad 2: Llif Prosiectau Awdurdodau Lleol Cymru	46
---	----

Blaenau Gwent	46	Merthyr Tudful	79
Pen-y-bont ar Ogwr	48	Sir Fynwy	81
Caerffili	51	Castell-nedd Port Talbot	82
Caerdydd	53	Casnewydd	85
Caerfyrddin	58	Sir Benfro	87
Ceredigion	62	Powys	91
Conwy	64	Rhondda Cynon Taf	93
Sir Ddinbych	69	Abertawe	97
Sir y Fflint	72	Torfaen	100
Gwynedd	75	Bro Morgannwg	101
Ynys Môn	77	Wrecsam	104

Atodiad 3: Llif Prosiectau'r Sector Preifat	106
---	-----

Dŵr	106
Ynni	111
Network Rail	116

Geirfa	117
--------	-----

Rhagair gan y Gweinidog

Pan gyhoeddais y diweddariad blaenorol i'n llif prosiectau arfaethedig ar gyfer prosiect Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) yn 2019, disgrifiais yr amgylchiadau y cawsom ein hunain ynddynt fel "cyfnod o ansicrwydd cynyddol, gyda graddfa a chyflymder y newid heb ei gysail". Dros flwyddyn yn ddiweddarach, mae pandemig COVID-19 a'r anawsterau parhaus sy'n deillio o ddiwedd y cyfnod pontio, yn parhau i greu sefyllfa hynod o heriol ar gyfer datblygu a chyflawni buddsoddiad mewn seilwaith i gefnogi cynhyrchiant a thwff.

Er hynny, er gwaethaf yr heriau iechyd, economaidd a chymdeithasol hyn sy'n rhan mor flaenllaw o'n sgwrs genedlaethol ar hyn o bryd, mae'n hanfodol inni barhau i gyflawni ein haddewid i sicrhau Cymru wyrddach. Fel y nododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y mis diwethaf, rydym wedi gosod rheoliadau yn y Senedd a fydd yn ymrwymo Cymru'n ffurfiol, am y tro cyntaf, i dargedau sy'n rhwymo mewn cyfraith i gyflawni'r nod o allyriadau sero-net. Bydd sut yr ydym yn cynllunio ein buddsoddiad seilwaith strategol yn y dyfodol yn rhan allweddol o hyn.

Dyna pam y nodais ein cynlluniau mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr ar gyfer datblygu olynedd i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Rydym wedi cnoi cil ar yr angen i sicrhau bod ein strategaeth yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyffredin, ac wedi cadarnhau ein bwriad i adeiladu ein fframwaith strategol o amgylch y pedair egwyddor graidd a ymgorfforir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: bod rhaid i fuddsoddiad seilwaith yng Nghymru wella amgylchedd, lles economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Cymru. Yn benodol, gwyddom fod rhaid i hyn ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd gan gynnwys yr ymrwymiad hwnnw i Sero-net a mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Y llif prosiectau arfaethedig hwn fydd y diweddariad terfynol yn ystod y weinyddiaeth bresennol, ac rwyf yn hynod o falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni. Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi dyrannu mwy na £12 bn i'w fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf allweddol ledled Cymru, gan gynnwys:

- Mwy na 1.9bn i drawsnewid a chynnal a chadw ystad y GIG;
- £2bn i ddarparu mwy na 20,000 o dai fforddiadwy; a
- £1.3bn i gefnogi gwasanaethau rheilffyrdd a gwella seilwaith rheilffyrdd.

At hynny, rydym wedi bwrw ymlaen â mentrau cyllid arloesol gyda gwerth cyfalaf o tua £2bn – sy'n rhoi hwb y mae galw mawr amdano i gyllidebau cyfalaf gan alluogi buddsoddiad i gael ei gyflawni'n gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall.

Mae'r llif hwn o brosiectau arfaethedig yn manylu ar ein huchelgais i barhau i adeiladu ar y llwyddiannau sylweddol hyn yn y dyfodol, ac mae'n nodi £29.9bn o fuddsoddiad seilwaith arfaethedig ar draws ystod eang o brosiectau'r sector cyhoeddus a phreifat.

Fel cam cyntaf yn y cynlluniau uchelgeisiol hyn, heddiw rwyf yn cyhoeddi ein cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol, 2021-22. Gan adeiladu ar y pecyn cyfalaf gwerth £140m a gyhoeddais y llynedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, rydym yn darparu bron £80m o gyfalaf ychwanegol yn 2021-22 i gefnogi gweithgareddau yn uniongyrchol sy'n hyrwyddo datgarboneiddio ac yn gwella ein bioamrywiaeth gyfoethog ymhellach. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- £20m ar gyfer teithio llesol, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad i fwy na £50m yn 2021-22;
- Buddsoddiad o £5m i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni Prosiect Peilot Di-garbon, gan ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau yng Nghymru;
- Dyraniad pellach o £15m – ar ben cyllidebau presennol – i roi hwb i'n rhaglenni tlodi tanwydd ac ynni adnewyddadwy.

Wrth gydnabod yr angen i gydbwysu anghenion ar hyn o bryd ac anghenion y dyfodol, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r rôl y gall buddsoddi mewn seilwaith ei chwarae fel ysgogiad economaidd yn y tymor byr, yn ogystal â gwella canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y tymor hwy. Dyna pam yr wyf, fel rhan o'r Gyllideb derfynol, yn cyhoeddi pecyn ychwanegol o fuddsoddiad cyfalaf gwerth bron £225m i ddarparu'r ysgogiad hwnnw, gan gynnwys £147m ar gyfer buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â thai gan gefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, yn ogystal â BBaChau lleol a'u cadwyni cyflenwi cysylltiedig.

Fel bob amser, rwyf yn hynod o ddiolchgar i'n partneriaid ar draws llywodraeth leol a'r sector preifat yr ydym wedi gweithio'n agos gyda hwy i gynhyrchu'r llif arfaethedig helaeth hwn o fuddsoddiadau mewn seilwaith ledled Cymru. Wrth i'r gwaith yr ydym yn ei wneud i ddatblygu olynnydd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gyflymu, byddaf, wrth gwrs, yn sicrhau bod y gwaith agos hwn yn parhau i ddatblygu strategaeth buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Cymru gyfan.



Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Atodiad 1 – Llif prosiectau Llywodraeth Cymru

Mae'r adran hon o'r llif prosiectau yn rhoi amlinelliad o raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru lle mae cyfanswm gwerth y cynlluniau yn fwy na £15m ac, os nad ydynt wedi dechrau eisoes, maent i fod i ddechrau o fewn y tair blynedd nesaf.

Mae hi'n seiliedig ar yr hyn a ddisgwylir nawr o ran cyllid yn y dyfodol. Er mai ein prosiectau blaenoriaethol yw'r cynlluniau a gyflwynir, a'i bod yn debygol iawn y byddant yn cael eu cyflawni fel y disgrifir, nid yw hyn yn golygu ymrwymiad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd o ansicrwydd yn y dyfodol, gan gynnwys y rhagolygon gwariant cyhoeddus yn y dyfodol.

Sectorau

Datblygu Economaidd

Mae Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer seilwaith modern a chysylltiedig er mwyn galluogi twf economaidd mwy cynhwysol drwy hyrwyddo cryfderau rhanbarthau a mynd i'r afael â heriau strwythurol.

Rhaid buddsoddi yn ein seilwaith trafndiaeth, cysylltedd digidol, ac ansawdd safleoedd busnes er mwyn sicrhau bod pobl, lleoedd a busnesau wedi cael eu cysylltu'n well, ac mae hynny'n dylanwadu ar gynhyrchiant a chystadleurwydd.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Sefydliad Gweithgynhyrchu ac Ymchwil Uwch (AMRI) – Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy	£35m	£35m	2017	2022
2. Diwylliant a Chwaraeon	£100m	£80m	2019	2023
3. Banc Datblygu Cymru	£1bn	£700m	2017	Yn parhau
4. Darparu mewn Ardaloedd Menter (yn cynnwys cyfuniad o brosiectau'r Sectorau a phrosiectau a ddarperir mewn rhannau eraill o'r cynllun e.e. prosiectau Trafnidiaeth. Prosiectau trafndiaeth)	£350m	£215m	2018	Yn parhau
5. Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru	£84m	£24m	2017	2024
6. Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf	£65m	£38m	2018	2021
7. Parc Eirin	£30m	£1m	2018	Yn parhau
8. Porth Teigr	£386m	£38m	2013	Yn parhau
9. Safleoedd ac Eiddo	£300m	£200m	2015	2026
10. Ôl-gludo Strategol De Cymru	£25m	£13m	2019	2021
11. Rhaglen y Cymoedd Technoleg (y Parc Technoleg Modurol gynt)	£100m	£100m	2018	2027
12. Y Felin/The Mill	£100m	£6m	2017	2023
13. Cyfleuster Profi ac Ymchwil Hydrolig Thermol ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Ynys Môn	£52m	£20m	2018	2029

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
14. Cronfa Twristiaeth	£50m	£10m	2019	2023
15. Whiteheads	£75m	£7m	2018	Yn parhau
16. Ailddatblygu adeilad Theatr Clwyd	£42m	£25m	2020	2024
17. Sefydlu Rhaglen Datblygu Safle Trawsfynydd	£402m	£22m	2021	2028

1. Sefydliad Gweithgynhyrchu ac Ymchwil Uwch (AMRI) – Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Cyllid a chyflawni

Bydd y prosiect yn cael ei ariannu drwy'r gyllideb Cyfalaf Craidd ac mae iddo ddwy elfen:

Cam 1 – AMRC Cymru – Oafodd ei agor yn 2019 ac mae'n darparu 6,500m² o ofod arbenigol iawn sy'n canolbwyntio ar alluoedd gweithgynhyrchu gwerth uchel, wedi'u halinio â Diwydiant Caiff ei gyflawni mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield. Airbus oedd y tenant angori cyntaf ac mae'n defnyddio 50% o'r lle i gefnogi ei raglen ymchwil a datblygu fyd-eang 'Adain Yfory'. Mae AMRC yn gweithredu gweddill y cyfleuster ar egwyddor mynediad agored i gefnogi gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Cam 2 – Canolfan Ymchwil Technoleg Uwch (ATRC) – I ategu AMRC Cymru, bydd y cyfleuster arfaethedig hwn yn datblygu galluoedd technoleg a meddalwedd ac yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau arbenigol ar gyfer gofynion diwydiant. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Gweinidog y bwriad i archwilio datblygiad ATRC, yn gyfagos i'r Asiantaeth Electroneg a Chydrannau Amddiffyn (DECA) yn MOD Sealand. Ym mis Medi 2019 llofnododd Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn gytundeb 'Egwyddorion Partneru' a oedd yn nodi uchelgais glir ar y cyd ar gyfer ATRC. Disgwylir i faint y cyfleuster fod tua 3,000 metr sgwâr. Rhagwelir y bydd y model cyflawni yn adlewyrchu model AMRC Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae AMRC Cymru yn canolbwyntio ar brosesau a thechnegau gweithgynhyrchu sy'n cyd-fynd â Diwydiant. Bydd yr ATRC yn ategu hyn gyda mwy o bwyslais ar is-gydodod, digidol, electroneg a chydrannau. Ers mis Gorffennaf 2018 mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi bod yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i leoli cyfleuster sy'n gyfagos i'r Asiantaeth Electroneg a Chydrannau Amddiffyn (DECA) yn nghanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn Sealand (Sir y Fflint). Bydd ATRC yn datblygu gallu sofran y DU mewn meysydd technoleg hanfodol gan gynnwys meddalwedd afioneg ac yn creu cyfleoedd masnachol a chyflogaeth cynaliadwy a fydd o fantais yn filwrol ac yn fasnachol.

2. Diwylliant a Chwaraeon

Cyllid a chyflawni

Rhodddwyd cyllid grant gan LIC i Cadw a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gyda rhywfaint o arian cyfatebol gan bartneriaid fel Awdurdodau Lleol (ALLau).

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y rhaglen yn buddsoddi yn ein darpariaeth ddiwylliannol a chwaraeon, er mwyn buddsoddi yn seilwaith ein cyfleusterau chwaraeon, buddsoddi mewn rhaglenni sy'n creu incwm yn Cadw, yr Amgueddfeydd Cenedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol; a chyflawni gwaith cynnal a chadw a chadwraeth hanfodol ar ein henebion a'n hamgueddfeydd.

3. Banc Datblygu Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae Banc Datblygu Cymru yn is-gwmni ym mherchnogaeth LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Banc Datblygu Cymru yn dynodi newid sylweddol mewn cyllid a gefnogir gan y Llywodraeth ar gyfer busnesau Cymru a bydd yn llenwi'r bwlch rhwng y cyllid a ddarperir gan y sector preifat a'r galw am gyllid gan fusnesau Cymru.

4. Darparu mewn Ardaloedd Menter (yn cynnwys cyfuniad o brosiectau'r Sectorau a phrosiectau a ddarperir mewn rhannau eraill o'r cynllun e.e. prosiectau Trafnidiaeth. Prosiectau trafndiaeth)

Cyllid a chyflawni

Mae'r opsiynau cyllid a darparu'n amrywio ar draws y prosiectau unigol a restrir ar wahân yn yr adroddiad.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Byrddau Ardaloedd Menter, sy'n un o ymrwymadau'r rhaglen lywodraethu, wedi cael eu sefydlu i roi cyngor ar y dulliau mwyaf addas ac effeithiol o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd ym mhob Ardal Fenter ac i nodi cynlluniau strategol unigol, a gyhoeddwyd yn www.ardaloeddmenter.cymru.gov.uk. Mae'r prosiectau cyfalaf presennol o bwys a restrir yn y ddogfen hon hefyd yn cyflawni nodau Cynlluniau Strategol yr Ardaloedd Menter, er enghraifft Cynllun Gwella Lôn Pum Milltir, Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy a Pharc Technoleg Glynebwy.

5. Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir fel menter ar y cyd â Celtic Manor Resorts Limited.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y datblygiad arloesol hwn gyda Gwesty'r Celtic Manor yn ychwanegiad pwysig at amgylchedd adeiledig Cymru. Hwn fydd yr adeilad eiconig cyntaf y bydd ymwelwyr sy'n dod i Gymru yn ei weld wrth iddynt yrru i Gymru, gan roi hwb sylweddol i economi'r De a hyrwyddo Cymru ar lwyfan y DU ac yn Rhyngwladol.

6. Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf

Cyllid a chyflawni

I'w gyllido gan LIC ac Arian Ewropeaidd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r buddsoddiad yn adeiladu ar brosiect llwyddiannus Cyflymu Cymru drwy barhau i ddarparu seilwaith cyflym iawn a gwibgysyllt i eiddo nad ydynt yn cael isafswm o 30MB/eiliad ledled Cymru. Am bob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddir, bydd Cyflymu Cymru yn cynhyrchu tua £6.70 o fanteision economaidd net i Gymru a rhagwelir y bydd buddsoddiad ychwanegol yn ymestyn cyrhaeddiad y manteision hyn.

7. Parc Eirin

Cyllid a chyflawni

Chwaer-gwmni Melin Trelái sy'n rhan o Grŵp Cartrefi Tirion fydd yn arwain y fenter gan ddefnyddio model buddsoddi arloesol i sicrhau cyllid cyfalaf ac adeiladu tai fforddiadwy a marchnad agored sydd eu hangen yn ddirfawr. Adeiladu cartrefi i gychwyn cyn diwedd 2019.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y cynllun yn darparu 225 o gartrefi, a bydd dros 50% ohonynt yn rhai fforddiadwy. Mae'r Grant Rhaglenni Tai Arloesol wedi cael ei sicrhau i ddatblygu cartrefi ynni-bositif a fydd, am ran o'r flwyddyn, yn allforiwr net trydan, gan gyfrannu pŵer at y National Grid. O ganlyniad, bydd y cartrefi'n cynhyrchu prin ddim allyriadau carbon yn ystod eu hoes weithredol. Parc Eirin fydd y prosiect tai ynni-bositif mwyaf yn y DU.

8. Porth Teigr

Cyllid a chyflawni

Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a'r sector preifat. Hyd yn hyn, mae Stiwdios Porth y Rhath ar gyfer BBC Cymru ac adeilad Gloworks sy'n 40,000 tr. sgwâr wedi cael eu cwblhau. Cyflwynwyd hysbysiad terfynu i Igloo Regeneration Partnership am beidio â datblygu ac mae'r safle bellach o dan reolaeth LIC. Datblygiad fesul cam dros 12 mlynedd.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y datblygiad defnydd cymysg strategol hwn yn darparu hyd at 2m² troedfedd ar safle o tua 38 erw. Erbyn hyn mae prif gynllun i baratoi ar gyfer ymestyn y safle i Alexandra Head ar gyrion y morglawdd. Mae potensial i ddatblygu mwy na 1,500 o gartrefi newydd, yn ogystal â'r gofod masnachol ond, yn amodol ar ddarparu seilwaith digonol gan y sector cyhoeddus. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar botensial a chost mynd â chyswllt metro o Orsaf Ganolog Caerdydd i Borth Teigr, a'r derbyniadau tir amcangyfrifedig os yw holl dir Llywodraeth Cymru yn cael ei werthu gyda budd cyswllt metro.

9. Safleoedd ac Eiddo

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir y cynllun drwy gyfuniad o ymyriadau wedi'u harwain gan Lywodraeth Cymru, trefniadau menter ar y cyd neu gyllid uniongyrchol i'n partneriaid cyflawni yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r rhaglen yn denu arian cyfatebol gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ogystal ag arian gan yr UE.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn ategu llawer o'r dyheadau yn Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi drwy ddarparu uned ddiwydiannol o'r radd flaenaf i Gymru er mwyn iddi ddarparu'r safleoedd cywir i fusnesau Cymru dyfu a datblygu yn ogystal â chystadlu am fuddsoddiad rhyngwladol gyda gweddill y DU ac yn fyd-eang. Bydd y rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn cael effaith sylweddol fel rhan o fenter Tasglu'r Cymoedd.

10. Ôl-gludo Strategol De Cymru

Cyllid a chyflawni

Cyllidir gan LIC a Building Digital UK.

Gwybodaeth ychwanegol

Prosiect i osod ffeibr a dwythellau ar hyd holl gefnffyrdd De Cymru i'r dwyrain o Gaerdydd.

11. Rhaglen y Cymoedd Technoleg (y Parc Technoleg Modurol gynt)

Cyllid a chyflawni

Bydd y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau annibynnol a gyflwynir dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor; bydd yn ceisio ysgogi cyllid ychwanegol gan y sector cyhoeddus a/neu'r sector preifat.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd datblygiad y Cymoedd Technoleg ym Mlaenau Gwent yn mabwysiadu dull strategol o weithredu ochr yn ochr â bargeinion dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe a Thasglu'r Cymoedd ynghyd â Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Mae ganddo'r potensial i greu 1,500 o swyddi o ansawdd uchel drwy fuddsoddiad sylweddol i ysgogi twf cynhwysol ar draws Cymoedd y De. Dechreuodd partneriaeth gyda THALES Plc i ddarparu Canolfan Addysg Ddigidol Genedlaethol (NDEC) yn 2018.

12. Y Felin/The Mill

Cyllid a chyflawni

Buddsoddiad ar y cyd rhwng y sector preifat a LIC. Bydd Cwmni Datblygu Pont Trelái, sy'n sefydliad 'Di-elw' a sefydlwyd gan LIC a Chymdeithas Adeiladu'r Principality, yn arwain y fenter gan ddefnyddio model buddsoddi arloesol i sicrhau cyllid ac adeiladu tai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad agored sydd eu hangen yn ddirfawr.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd prosiect y Felin yn darparu 800 o gartrefi newydd, y bydd dros 50% ohonynt yn rhai fforddiadwy, sy'n ddigynsail ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Mae'r gwaith seilwaith a'r unedau ar Gam A wedi gorffen. Mae Cam B y gwaith adeiladu wedi cychwyn.

13. Cyfleuster Profi ac Ymchwil Hydrolig Thermol ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Ynys Môn

Cyllid a chyflawni

Mae gan LIC gyfle i gydweithio ag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y DU i gyflawni'r prosiect fel rhan o raglen ymchwil niwclear Llywodraeth y DU. Mae'n ofynnol i'r prosiect gael hyd at £20m, mewn egwyddor, sy'n trosoli £32.55m o arian cyfatebol gan BEIS.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Cyfleuster Profi ac Ymchwil Hydrolig Thermol ym Mharc Gwyddoniaeth Menai ar Ynys Môn yn gynnig i ddod â phrif gyfleuster profi ac ymchwil i'r Gogledd, sydd â disgwyliad etifeddol o hyd at 50 mlynedd.

14. Cronfa Twristiaeth

Cyllid a chyflawni

Cronfa Twristiaeth sy'n cynnwys cymysgedd o gyllid grant a chyllid benthyciad a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru i gefnogi buddsoddiad yng nghynnyrch twristiaeth Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y rhaglen yn buddsoddi yn nhwristiaeth Cymru, i ddarparu buddsoddiad mewn prif atyniadau i ymwelwyr a gwestai ledled Cymru. Ein nod yw cynyddu nifer y llety pedair seren a phum seren o ansawdd uchel; ynghyd â buddsoddi mewn atyniadau o bwys a fydd yn denu nifer cynyddol o ymwelwyr. Bydd y buddsoddiad yn creu swyddi yn ystod y camau adeiladu ac yn barhaus.

15. Whiteheads

Cyllid a chyflawni

Bydd chwaer-gwmni Melin Trelái sy'n rhan o Grŵp Cartrefi Tirion yn arwain y fenter gan ddefnyddio model buddsoddi arloesol i sicrhau cyllid cyfalaf ac adeiladu tai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad agored sydd eu hangen yn ddirfawr.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y cynllun yn darparu dros 250 o gartrefi fforddiadwy a 250 o gartrefi marchnad agored, yn ogystal â thir ar gyfer ysgol newydd. Mae'r contract adfer wedi'i gwblhau, a disgwyilir i'r gwaith adeiladu gychwyn ddiwedd 2019.

16. Ailddatblygu adeilad Theatr Clwyd

Cyllid a chyflawni

Agorwyd Theatr Clwyd ym 1976 fel theatr a 'Chanolfan Technoleg Addysgol', a dyma theatr gynhyrchu fawr bwysicaf Cymru. Cyngor Sir y Fflint sy'n berchen ar yr adeilad. Dyma'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n dal i fod yn rhan o awdurdod lleol. Yn 2017, cynhaliodd Theatr Clwyd, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Celfyddydau Cymru astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf i'r theatr, er mwyn ei sicrhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yr amcangyfrif manwl cyfredol ar gyfer ailddatblygu'r theatr yw £41.725m.

Gwybodaeth ychwanegol

Yn 2017 daeth arfarniad opsiynau i'r casgliad y byddai dymchwel ac ailadeiladu yn costio tua £80m (h.y. ddim yn ddichonadwy). Edrychodd hefyd ar waith adnewyddu sylfaenol (mecanyddol a pheirianneg yn unig), a amcangyfrifwyd bryd hynny ar gost cyfalaf o £17m. Daeth y theatr a CC Sir y Fflint i'r casgliad na fyddai hyn yn cynnig unrhyw wydnwch ariannol, twf na dyheadau yn y dyfodol i gyd-fynd â theatr gynhyrchu o'r radd flaenaf ond dim ond delio â materion diogelwch ac amgylcheddol brys. Roedd y pwyllgor llywio o'r farn bod hyn yn anymarferol a chadarnhaodd Cyngor Celfyddydau Cymru na fyddai'n cefnogi'r dull hwn.

Felly, datblygwyd yr opsiwn a ffefrir, i ddelio â'r materion mecanyddol a pheirianneg a diogelu'r theatr yn y dyfodol gyda chyfleusterau gwell a mwy hyblyg sy'n cynnig mwy o botensial ar gyfer cynhyrchu incwm a mwy o effeithiau diwylliannol a chymdeithasol.

17. Sefydlu Rhaglen Datblygu Safle Trawsfynydd

Cyllid a chyflawni

Y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg y Dev Co a chyfraniad i brosiect datblygu'r Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR). Mae angen rhyngweithio â nifer o bartneriaid e.e. BEIS er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Gwybodaeth ychwanegol

Manteision y Rhaglen

Mae cyflawni manteision y Rhaglen yn dibynnu ar gyflawni prosiectau sydd â chyfnodau arweiniol hir – ni fydd creu'r Dev Co ynddo'i hun yn cyflawni allbynnau sylweddol ond mae'n hanfodol i ddatgloi potensial yn y dyfodol. Mae'r manteision o bosibl yn cynnwys:

i) Economi Leol a Rhanbarthol

- creu o fewn y 10 mlynedd nesaf o tua 1,200 o swyddi hirdymor o ansawdd uchel (60 mlynedd a mwy) yn rhanbarth Trawsfynydd a Gogledd Cymru ehangach;
- denu buddsoddiad £2.9bn (yn seiliedig ar gyflawni SMR a phrosiectau MRR);
- ysgogi buddsoddiad GVA uniongyrchol o £78m yn seiliedig ar 700 o swyddi newydd, gyda GVA ychwanegol £25m yn seiliedig ar 440 o swyddi anuniongyrchol (SMR a phrosiectau MRR);
- creu swyddi sy'n talu'n dda mewn ardal economaidd wledig, ymylol sydd ag un o'r lefelau incwm aelwydydd isaf yn y DU (y cyflog canolrifol mewn gorsaf Magnox yw £45,000, o'i gymharu â chyfartaledd Gwynedd o £23,200);
- cadarnhau statws a safle Cymru fel rhanbarth allweddol o fewn Arc Niwclear Gogledd Orllewin y DU (mae'r Arc yn rhwydwaith o gyfleusterau cynhyrchu pŵer ac ymchwil a datblygu, sefydliadau academiaidd a chwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n cynrychioli cyfraniad GVA blynyddol o £5bn i economi'r DU gan ymestyn o Cumbria i Ogledd Cymru).

ii) Ymchwil, Arloesi a Sgiliau

- cadarnhau sefyllfa'r Sefydliad Dyfodol Niwclear newydd ym Mhrifysgol Bangor i brif gynghrair galluoedd ymchwil niwclear y DU – gan ddarparu cymorth ar gyfer y Cyfleuster Hydrolig Thermol yn M-SParc a fydd yn ei dro yn gyfleuster allweddol i gefnogi ymchwil SMR yn Nhrawsfynydd;
- cynorthwyo ac annog datblygiad prosiectau ynni cysylltiedig o fewn y rhanbarth (e.e. cyflenwi pŵer, gwres, hydrogen).

iii) Polisi

- cyfrannu at agenda allyriadau carbon 'sero net' 2050 yng Nghymru a ledled y DU drwy gynhyrchu ynni glân, di-garbon;
- helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb: Strategaeth Carbon Isel Cymru drwy gefnogi prosiectau sy'n ceisio cyfrannu at gynhyrchu pŵer carbon isel neu ddi-garbon.

Trafnidaeth

Roedd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2015, yn ymrwymo i raglen bum mlynedd o fuddsoddiadau mewn ffyrdd, rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol. Bydd y mwyafrif o'r prosiectau a nodir yn y Cynllun presennol yn rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol nesaf a fydd ar waith yn y cyfnod 2022-23 i 2026-27. Bydd y Cynlluniau hyn yn sicrhau biliynau o bunnoedd o fuddsoddi mewn seilwaith dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r holl brosiectau sy'n weddill o fewn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cael eu hadolygu yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru "Llwybr Newydd". Gwneir penderfyniadau ar seilwaith yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy sy'n blaenoriaethu buddsoddiadau mewn ffyrdd cynaliadwy. Bydd cyflawni ein targedau datgarboneiddio wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau seilwaith.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Gwella'r A40 i'r Gorllewin o Sanclêr – Llanddewi Felffre i Benblewin	£60m	£25m	2016	2022
2. Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd o'r Fenni i Hirwaun – Adran 2 (Gilwern i Fryn-mawr)	£336.2m	£336.2m	2014	2021
3. A465 Hirwaun – Adran 5 (Dowlais i'r A470) ac Adran 6 (yr A470 i Hirwaun)	£590m	£590m	2021	2025
4. A483 Llandeilo	£50m	£50m	2017	2022
5. A487 Pont Ddyfi newydd	£46m	£46m	2021	2023
6. A487 Ffordd Osgoi Caernarfon i'r Bontnewydd	£135m	£135m	2019	2022
7. A55 Cyffyrdd 15 a 16	£75m	£35m	2022	2023
8. A55 Trydedd Bont dros y Fenai	£130m	£130m	2022	2026
9. A55/A494/A458 Coridor Sir y Fflint	£300m	£300m	2022	2025
10. A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion	£23.5m	£10m	2020	2021
11. Cyfnewidfa Caerdydd	£120m	£30m	2017	2023

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
12. Darparu Cynlluniau Mannau Cyfyng	£63m	£63m	2017	2021
13. Cronfa Drafnidiaeth Leol a'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol (gan gynnwys cyllid i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer cynllun Fflecsi)	£31m	£31m	2017	Yn parhau
14. Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth	£25m	£17m	2020	Yn parhau
15. Y Gronfa Teithio Llesol	£30m	£30m	2016	Yn parhau
16. Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn	£29m	£17m	2020	Yn parhau
17. Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Chyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd	£9m	£9m	Yn parhau	Yn parhau
18. Gorsaf Llan-wern	£50m	£50m	2018	2021
19. Metro Gogledd-ddwyrain Cymru	£504m	I'w gadarnhau	2017	Yn parhau
20. Cyflwyno Llwybrau Teithio Llesol Integredig	£60m	£50m	2018	2021
21. Trafnidiaeth Integredig De Cymru – Metro	£738m	£738m	2017	2022
22. Canolfan Ragoriaeth Rheilffyrdd Byd-eang	£250m	£77m	2018	2025
23. Prosiect Porth Wrecsam	£100m	£50m	2019	2035

1. Gwella'r A40 i'r Gorllewin o Sanclêr – Llanddewi Felfre i Benblewin

Cyllid a chyflawni

Cyflawnir y prosiect gan ddefnyddio contract Dylunio ac Adeiladu. Dechreuodd y broses o gaffael contractwr yn ystod haf 2020 a rhagwelir y byddai'r contract yn cael ei ddyfarnu yng Ngwanwyn 2021. cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer tua'r un faint. Cadarnhawyd 60% o gostau cyffredinol y prosiect ym mis Rhagfyr 2016. Ariennir y gweddill gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella 4.3 milltir o ffordd un-ffrwd bresennol yr A40 i greu ffurfweddiad 2+1 er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd yn ogystal ag amseroedd teithio a dibynadwyedd. Ail gam cynllun gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr a fydd yn gwella mynediad i borthladdoedd Abergwaun ac Aberdaugleddau, yn ogystal ag Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

2. Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd o'r Fenni i Hirwaun– Adran 2 (Gilwern i Fryn-mawr)

Cyllid a chyflawni

Cyllidir gan LIC. Cyflawnir y prosiect gan LIC drwy Costain gan ddefnyddio contract Dylunio ac Adeiladu. Rhagwelir y caiff ei gwblhau ddiwedd 2021.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella 4.97 milltir o'r A465 bresennol rhwng Gilwern a Bryn-mawr.

3. A465 Hirwaun – Adran 5 (Dowlais i'r A470) ac Adran 6 (yr A470 i Hirwaun)

Cyllid a chyflawni

Ariennir drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru drwy Daliad Gwasanaeth Blynyddol o tua £38m y flwyddyn. Dyfarnwyd y contract ym mis Hydref 2020. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2021 a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn canol 2025.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella 9.94 milltir o'r A465 bresennol rhwng Dowlais a Hirwaun o ffordd 3-lôn sengl i ffordd 2-lôn ddeuol a chyffyrdd aml-lefel cysylltiedig.

Penodwyd consortiwm Cymoedd y Dyfodol i adeiladu, gweithredu a chynnal y cynllun am gyfnod o 30 mlynedd ar ôl adeiladu.

4. A483 Llandeilo

Cyllid a chyflawni

I'w ariannu gan LIC. Cwblhau WelTag cam dau erbyn mis Mawrth 2021. Dyluniad manwl/llwybr a ffefrir 2021-23.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad yn helpu gydag ansawdd aer a thagfeydd o amgylch Llandeilo. Mae'r arfarniadau trafndiaeth wrthi'n cael eu hadolygu.

5. A487 Pont Ddyfi newydd

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

0.75 milltir o gefnffordd newydd i'r gorllewin o Fachynlleth i fynd i'r afael â phroblemau llifogydd a'r gallu i'w gwrthsefyll.

6. A487 Ffordd Osgoi Caernarfon i'r Bontnewydd

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Ffordd osgoi i'r de, de-ddwyrain, dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o Gaernarfon. Bydd y ffordd osgoi yn mynd â'r traffig i ffwrdd o dagfeydd Dinas, Bontnewydd a Chaernarfon.

7. A55 Cyffyrdd 15 a 16

Cyllid a chyflawni

Cyflawnir gan LIC a chadarnhawyd cyllid o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer tua 65% o holl gostau'r prosiect ym mis Rhagfyr 2016. Ariennir y gweddill gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd dwy gyffordd cylchfan bresennol ar yr A55 yn cael eu gwahanu ar aml-lefel er mwyn gwella diogelwch a dibynadwyedd amseroedd teithio.

8. A55 Trydedd Bont dros y Fenai

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC mewn partneriaeth â phartneriaid allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Pont newydd dros y Fenai i wella diogelwch, amseroedd teithio a gwytnwch y rhwydwaith.

9. A55/A494/A458 Coridor Sir y Fflint

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella tua 7.45 milltir o ffordd rhwng Queensferry a Llaneurgain i fynd i'r afael â thagfeydd traffig, gwydnwch a materion diogelwch yn ardal Glannau Dyfrdwy.

10. A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion

Cyllid a chyflawni

Cyflawnir gan LIC a chadarnhawyd cyllid o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer tua 65% o holl gostau'r prosiect ym mis Rhagfyr 2016. Ariennir y gweddill gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella 1.37 milltir o'r A55 i fynd i'r afael â risgiau o ran llifogydd a diogelwch.

11. Cyfnewidfa Caerdydd

Cyllid a chyflawni

Ariennir yr orsaf bysiau gan LIC tra bydd y sector preifat yn ariannu'r datblygiad ehangach. Y dyddiad dechrau ar y safle i'w gadarnhau.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd yn darparu canolfan integredig newydd ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yng nghanol Caerdydd.

12. Darparu Cynlluniau Mannau Cyfyng

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Darparu cynlluniau manau cyfyng ledled Cymru i fynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd. Mae cyfanswm yr arian ar gyfer cynlluniau a ddarperir dros y 4 blynedd nesaf. Caiff y gwaith o gyflawni cynlluniau manau cyfyng ei gydgyssylltu gan Lywodraeth Cymru yn bennaf drwy'r asiantau cefnffyrdd, ond hefyd drwy Awdurdodau Lleol. Yn cynnwys £33m ar gyfer cynlluniau cefnffyrdd, £15m ar gyfer gwelliannau i ffyrdd lleol.

13. Cronfa Drafndiaeth Leol a'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol (gan gynnwys cyllid i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer cynllun Fflecsi)

Cyllid a chyflawni

Cyllid grant ar gyfer prosiectau trafndiaeth Awdurdodau Lleol. Gwahoddir ceisiadau gan bob ALL. Fe'u dyfernir ar sail gystadleuol. Arian cyfatebol yn ofynnol ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol.

Gwybodaeth ychwanegol

Proses flynyddol yw hon ar gyfer darparu cyllid grant (tua £30m). Mae meysydd y grant yn cynnwys: Cronfa Drafndiaeth Leol, Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol. Darperir y prosiectau drwy gydol y flwyddyn gan ALLau yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid. Mae lefel y cyllid yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael a'r cynlluniau a gyflwynwyd. Roedd Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol yn grant 4 blynedd ac mae bellach wedi'i throi'n Gronfa Drafndiaeth Leol i ariannu cynlluniau yr oedd angen eu hariannu yn y dyfodol. Derbyniwyd ceisiadau am Gronfa Drafndiaeth Leol ac maent yn cael eu hasesu. Rydym hefyd yn disgwyl achos busnes gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y cynllun fflecsi, a bydd hyn yn effeithio ar faint y gallwn ei ddyrannu i ALLau.

14. Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth

Cyllid a chyflawni

Cyllid grant ar gyfer prosiectau trafndiaeth Awdurdodau Lleol. Gwahoddir ceisiadau gan bob Awdurdod Lleol. Fe'u dyfernir ar sail gystadleuol. Arian cyfatebol yn ofynnol ar gyfer y Gronfa Ffyrdd Cydnerth.

Gwybodaeth ychwanegol

2020-21 yw'r flwyddyn ariannol gyntaf ar gyfer y gronfa grant hon. Ei nod yw mynd i'r afael â thrafferthion a achosir gan dywydd garw i'r rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig i'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus.

15. Y Gronfa Teithio Llesol

Cyllid a chyflawni

Cyllid grant ar gyfer prosiectau trafndiaeth Awdurdodau Lleol. Gwahoddir ceisiadau gan bob ALI ac fe'u dyfernir ar sail gystadleuol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Annog newid moddol o gar i deithio llesol ar wahân neu ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus
- Gwella mynediad teithio llesol i gyflogaeth, addysg, gwasanaethau allweddol a chyrchfannau allweddol eraill sy'n cynhyrchu traffig
- Cynyddu lefelau teithio llesol
- Cysylltu cymunedau

16. Cronfa Trawsnewid Cerbydau

Allyriadau Isel lawn

Cyllid a chyflawni

Cyllid grant ar gyfer prosiectau trafndiaeth Awdurdodau Lleol. Dyfarnwyd rhywfaint o arian i Sustrans i'w galluogi i ddarparu E-feiciau/E-Sgwteri a beiciau E-Cargo.

Gwybodaeth ychwanegol

- Darparu seilwaith codi tâl ar gyfer cerbydau trydan, wedi'i dargedu at ddefnyddwyr heb fynediad i barcio oddi ar y stryd.
- Darparu seilwaith codi tâl mewn meysydd parcio cyhoeddus.
- Hybiau gwefru cerbydau trydan – yn canolbwyntio ar feysydd sydd â'r potensial i gefnogi amrywiaeth o anghenion gwefru cerbydau trydan.
- Darparu seilwaith codi tâl ar gyfer tacsis, cerbydau hurio preifat a bysiau.
- Darparu Fflyd Werdd ar gyfer tacsis, cerbydau hurio preifat a bysiau.
- Darparu micro-symudedd (h.y. cymorth i gymryd rhan yn nhreialon e-sgwteri'r Adran Drafndiaeth, hyrwyddo e-feiciau a beiciau e-gargo).

17. Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Chyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd

Cyllid a chyflawni

Cyllid grant ar gyfer prosiectau trafndiaeth Awdurdodau Lleol. Gwahoddir ceisiadau gan bob ALI ac fe'u dyfernir ar sail gystadleuol.

Gwybodaeth ychwanegol

Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

- Cynyddu lefelau teithio llesol ymhlith plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn y gymuned ehangach
- Gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau
- Gwella'r amgylchedd ar gyfer cerdded a mynd ar feic neu sgwter o amgylch ysgolion

Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd

- Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol yng Nghymru drwy dargedu grwpiau anafiadau risg uchel ac agored i niwed
- Galluogi mwy o bobl i fanteisio ar deithio llesol
- Gwella gallu cymunedau i fyw

18. Gorsaf Llan-wern

Cyllid a chyflawni

Cyllidir a chyflawnir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Darparu gorsaf drenau newydd yn Llan-wern ynghyd â llinellau sefydlogi a chyfleuster parcio a theithio mawr. Bydd darparu'r orsaf newydd yn ategu rhaglen waith hynod bwysig y Metro.

19. Metro Gogledd-ddwyrain Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu rhaglen o fuddsoddiadau sy'n canolbwyntio, i gychwyn, ar hybiau cyflogaeth allweddol ar draws y rhanbarth. Bydd gwireddu gweledigaeth y Metro yn gofyn am gyllid sylweddol ar ôl 2020-21 gan y bydd, yn anochel, yn golygu cyflawni gwelliannau seilwaith o bwys. Bydd Metro Gogledd-ddwyrain Cymru yn gyfuniad o gynlluniau sydd eisoes wedi'u nodi fel prosiectau annibynnol sydd yn yr arfaeth a chynlluniau newydd wrth iddynt godi. Mae'r ffocws cychwynol wedi bod ar sicrhau gwelliannau i'r seilwaith teithio a bysiau yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam.

Gwybodaeth ychwanegol

Cyhoeddwyd y weledigaeth ar gyfer y Gogledd a Metro'r Gogledd-ddwyrain ym mis Mawrth 2017.

20. Cyflwyno Llwybrau Teithio Llesol Integredig

Cyllid a chyflawni

I'w hariannu gan LIC, gydag arian cyfatebol yn dod gan ffynonellau eraill yn cynnwys ALLau a chyfraniadau gan ddatblygwyr.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad yn gwella seilwaith ac yn datblygu llwybrau teithio llesol cynaliadwy mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Mae Deddf Teithio Llesol 2013 yn rhoi dyletswydd ar ALLau a LIC i hybu pobl i feicio a cherdded. Cynyddodd y cymorth cyllido hwn lefelau gweithgarwch ledled Cymru.

21. Trafnidiaeth Integredig De Cymru – Metro

Cyllid a chyflawni

Mae'r cyllid yn cynnwys cyfraniad gan yr UE a'r Adran Drafndiaeth a ddarperir drwy LIC. Mae'r amserlen gyflawni a'r proffil costau wrthi'n cael eu cynllunio drwy Trafnidiaeth Cymru a'r Partner Gweithredu a Datblygu.

Gwybodaeth ychwanegol

Cam 2 cynllun newydd a allai fod yn drawsnewidiol, i greu system Metro'r De-ddwyraindrwy well cysylltiadau bysiau, rheilffyrdd a cherdded/beicio. Mae cynigion ar gyfer prosiectau trawsnewidiol newydd ychwanegol hefyd yn cael eu datblygu. Bydd y prosiectau buddsoddi integredig strategol hyn yn ategu Cam 2 y Metro i wella'r canlyniadau a gynlluniwyd o ran y fenter allweddol hon.

22. Canolfan Ragoriaeth Rheilffyrdd Byd-eang

Cyllid a chyflawni

Ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda disgwyliad o gefnogaeth gan Lywodraeth y DU a phartneriaid allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cam 1 o 3 i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu dolen profi seilwaith rheilffyrdd y disgwylir iddi fod yn weithredol ddiwedd 2023. Bydd cyflawni'r cam hwn yn galluogi Rheilffyrdd y DU i ddod ag arloesedd newydd i barodrwydd rhwydwaith yn llawer cyflymach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd a chaniatáu cyfraniad llawn i'r agenda datgarboneiddio.

23. Prosiect Porth Wrecsam

Cyllid a chyflawni

I'w ariannu gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniadau ALL a datblygwyr preifat.

Gwybodaeth ychwanegol

Datblygu ffordd ddynesu Ffordd yr Wyddgrug i Wrecsam, gan ymgorffori canolfan drafndiaeth gyhoeddus integredig yng Ngorsaf Gyffredinol Wrecsam, gan gysylltu â Metro'r Gogledd-ddwyrain; ailddatblygu'r Cae Ras i fodloni safonau rhyngwladol; swyddfeydd (i gynnwys hyb ar gyfer Trafnidiaeth Cymru), datblygiad preswyl ac amwynder.

Yr Amgylchedd – Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

Mae'r Rhaglenni Llifogydd ac Arfordiroedd yn cyfrannu at yr Ymrwymadau Allweddol o fewn Symud Cymru Ymlaen i barhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd. Dros oes y Llywodraeth hon byddwn yn darparu dros £150 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ac yn cefnogi £150 miliwn arall drwy'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol i leihau'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol i dros 47,000 o eiddo. Yn ogystal, byddwn yn darparu dros £120 miliwn o refeniw i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf hwn a chynnal ein rhwydwaith o asedau.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	£131.5m	£131.5m	2017	Yn parhau
2. Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol	£150m	£127.5m	2019	2022

1. Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Cyllid a chyflawni

Mae hon yn rhaglen barhaus o fuddsoddi mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Buddsoddir drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Awdurdodau Lleol (ALLau).

Caiff cynlluniau Arfordiroedd a Phrif Afonydd eu harwain gan CNC a'u hariannu'n gyfan gwbl drwy Gymorth Grant. Arweinir cynlluniau erydu arfordirol, cyrsiau dŵr cyffredin (nentydd) a chynlluniau dŵr wyneb gan ALLau a'u hariannu ar 85% ar gyfer adeiladu a 100% ar gyfer achos busnes/gwaith paratoi. Darperir y 15% sy'n weddill o'r cyllid ar gyfer costau adeiladu gan yr ALLau. Anogir CNC ac ALLau i chwilio am gyfleoedd ariannu partneriaeth lle mae trydydd partïon yn elwa o'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud.

Yn 2020-21 treialwyd Rhaglen Rheoli Llifogydd Naturiol, gan ddarparu cyllid grant o 100% dros 2 flynedd i ALLau a CNC i gynnal cynlluniau rheoli llifogydd naturiol.

Mae'r rhaglen hon hefyd yn helpu i baratoi achosion busnes ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol a ariennir ar 100%.

Gwybodaeth ychwanegol

Erbyn tymor y Senedd hon, byddwn wedi buddsoddi dros £390m (cyfalaf a refeniw) mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros ein 2 raglen, gan leihau'r risg i dros 47,000 o eiddo ledled Cymru.

2. Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol

Cyllid a chyflawni

Mae'r rhaglen hon yn ariannu cynlluniau arfordirol dan arweiniad ALI i leihau'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu 85% o'r cyllid ar gyfer y cyfnod adeiladu drwy'r Fenter Benthycu Llywodraeth Leol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddod o hyd i'r arian cyfatebol o 15% sy'n weddill, naill ai o'i gronfeydd wrth gefn ei hun neu gan drydydd parti sy'n elwa o'r buddsoddiad.

Gwybodaeth ychwanegol

Cytunwyd ar y cynlluniau i symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu ym mis Mawrth 2019.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, bydd 4 cynllun wedi dechrau, gyda 2 eisoes wedi'u cwblhau. Disgwylir i 18 arall ddechrau adeiladu ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Bydd y cynlluniau'n datblygu ar yr amod bod yr achos busnes yn cael ei gymeradwyo. Os bydd pob cynllun o fewn y rhaglen hon yn dechrau, bydd y risg bresennol ac yn y dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn gostwng i dros 16,000 o eiddo.

Ansawdd Aer, Sŵn a Chemegion

I gefnogi Awdurdodau Lleol gyda chyllid i alluogi camau brys i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol â gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid a gyhoeddwyd yn y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol a rheoliadau Cymreig cysylltiedig.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Gweithredu mesurau i fynd i'r afael â gormodiant nitrogen deuocsid – Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£25.2m	£25.2m	2019	2023

1. Gweithredu mesurau i fynd i'r afael â gormodiant nitrogen deuocsid – Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyllid a chyflawni

Mae'r cynllun hwn yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i alluogi camau brys i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol â gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid a gyhoeddwyd yn y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd a rheoliadau Cymreig cysylltiedig. Ariennir Cyngor Caerdydd i ddarparu pecyn o fesurau sy'n cynnwys cynlluniau seilwaith canol y ddinas i wella capasiti teithio llesol a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus, cynllun grant uwchraddio tacsis ULEV, a chynllun grant ôl-ffitio allyriadau bysiau. Ariennir Caerffili i gaffael rhes o eiddo o'r enw Woodside Terrace ar ochr ddeheuol Hafodyrynys yr A472, i'w dymchwel i fynd i'r afael ag effaith 'ceunant stryd' a gwella gwasgariad allyriadau llygredig. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys gwaith peirianyddol dilynol i wneud gwaith adfer ac i symud y llwybr troed 6 metr i fwrdd o'r ffordd.

Gwybodaeth ychwanegol

Caerdydd – Cynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb manwl cyn dyfarnu cyllid. Nododd y gwaith yr opsiwn a ffeirir, a chafodd ei foddelu i ddangos y gellid cydymffurfio â gwerthoedd terfyn yn yr amser lleiaf. Lansiodd yr awdurdod ei gynllun ôl-ffitio bysiau ddiwedd 2020, a disgwyliar i'r cynllun tacsis lansio yn gynnar yn 2021. Mae'r gwaith yng nghanol y ddinas yn cynnwys 3 cynllun penodol – bydd Gorllewin Canol y Ddinas yn symud traffig drwy draffig o Heol y Porth ac yn gwella cysylltiadau bysiau â'r gyfnewidfa newydd, bydd Gogledd Canol y Ddinas yn disodli capasiti traffig cyffredinol yn Stryd y Castell gyda darpariaeth feicio well, a bydd Cam 1 Eastside yn cefnogi blaenoriaeth bysiau drwy Station Terrace a Churchill Way. Caerffili – Cynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb manwl cyn dyfarnu cyllid. Nododd y gwaith yr opsiwn a ffeirir, a chafodd ei foddelu i ddangos y gellid cydymffurfio â gwerthoedd terfyn yn yr amser lleiaf. Cwblhawyd y broses o gaffael yr eiddo yn 2020 ac mae'r awdurdod yn disgwyl cynnal proses dendro am y gwaith yn gynnar yn 2021.

Yr Amgylchedd – Gwastraff

Wrth gefnogi'r Awdurdodau Lleol gyda fforddiadwyedd seilwaith trin bwyd a gwastraff gweddilliol mwy cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol parhaus gyda chyfraniadau prosiect sefydlog tuag at ffioedd clwyd yn ystod y cyfnod gweithredol. Mae'r cyfraniad hwn yn seiliedig ar 25% o'r ffioedd clwyd a amcangyfrifwyd yn achosion busnes terfynol prosiectau, lle nad oes cyfraniad cyfalaf wedi'i ddarparu. Mae ffioedd clwyd yn daladwy o gychwyn gwasanaeth am gyfnod o 15 neu 25 mlynedd ar y mwyaf, ar gyfer prosiectau bwyd a gwastraff gweddilliol yn y drefn honno. Rhoes Llywodraeth Cymru gyfanswm cymorth cyfalaf o £17.5 miliwn i'r awdurdodau lleol ar gyfer y prosiectau hyn.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Prosiect Gwastraff Bwyd y Canolbarth	£14m	£1.09m	2012	2027
2. Prosiect Gwastraff Bwyd y Gogledd-ddwyrain	£7.3m	£2.22m	2014	2027
3. Prosiect Gwastraff Bwyd y De-orllewin	£14m	£1.98m	2017	2032
4. Prosiect Gwastraff Bwyd Blaenau'r Cymoedd	£14m	£1.84m	2018	2033
5. Prosiect Gwastraff Bwyd ac Organig Caerdydd	£8.2m	£0.94m	2017	2032
6. Prosiect Gwastraff Bwyd Cwm Yfory	£7.3m	£2.89m	2015	2028
7. Prosiect Gwastraff Bwyd GwyrriAD	£6.2m	£2.07m	2013	2028
8. Prosiect Gwyrdd (Gwastraff Gweddilliol)	£223m	£1.52m	2016	2041
9. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol y Gogledd	£180m	£1.36m	2019	2045
10. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Canol De Cymru	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
11. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory	£1.82m	£1.59m	2016	2041
12. Seilwaith	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	2021	I'w gadarnhau

1. Prosiect Gwastraff Bwyd y Canolbarth

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Agrivert. Cynllun treulio anaerobig i sicrhau ateb trin gwastraff cynaliadwy, hirdymor ar gyfer 17,000 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn. £1.09m (cymorth caffael cyfalaf).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Bowys a Cheredigion (ymunodd Sir Benfro ym mis Tachwedd 2014).

2. Prosiect Gwastraff Bwyd y Gogledd-ddwyrain

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Biogen. Bydd y prosiect yn sicrhau ateb trin gwastraff cynaliadwy, hirdymor ar gyfer 22,500 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn. Cyfleuster treulio anaerobig wedi'i adeiladu ac yn gweithredu yn Rhualt, Sir Ddinbych. £1.09m (cymorth caffael cyfalaf) £1.13m (cymorth i dalu ffi'r glwyd ymlaen llaw).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Sir Ddinbych, Conwy a Sir y Fflint.

3. Prosiect Gwastraff Bwyd y De-orllewin

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Agrivert, gan sicrhau ffordd hirdymor o drin 19,000 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn yng nghyfleuster Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. £1.98m (cymorth caffael cyfalaf).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr.

4. Prosiect Gwastraff Bwyd Blaenau'r Cymoedd

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Agrivert, gan sicrhau ffordd hirdymor o drin hyd at 16,000 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn yng nghyfleuster Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. £1.84m (cymorth caffael cyfalaf).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Flaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy.

5. Prosiect Gwastraff Bwyd ac Organig Caerdydd

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Kelda Organic. Bydd y prosiect yn sicrhau ateb trin gwastraff cynaliadwy, hirdymor ar gyfer 30,000 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn. Cyfleuster treulio anaerobig wedi'i adeiladu ac yn gweithredu yn Nhremorfa, Caerdydd. £0.94m (cymorth caffael cyfalaf).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Gaerdydd a Bro Morgannwg.

6. Prosiect Gwastraff Bwyd Cwm Yfory

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Biogen. Bydd y prosiect yn sicrhau ateb trin gwastraff cynaliadwy, hirdymor ar gyfer 22,500 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn. Cyfleuster treulio anaerobig wedi'i adeiladu ac yn gweithredu ym Mryn Pica, Rhondda Cynon Taf. £1.57m (cymorth caffael cyfalaf) £1.32m (cymorth i dalu ffi'r glwyd ymlaen llaw).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y ganolfan gan Ronda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd.

7. Prosiect Gwastraff Bwyd GwyrïAD

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Biogen. Adeiladwyd cyfleuster treulio anaerobig yn Llwyn Isaf a dechreuodd weithredu ym mis Hydref 2013. Contract i sicrhau ateb trin gwastraff cynaliadwy, hirdymor ar gyfer 11,000 tonnelli o wastraff bwyd y flwyddyn. £1.04m (cymorth caffael cyfalaf) £1.03m (cymorth i dalu ffi'r glwyd ymlaen llaw).

Gwybodaeth ychwanegol

Cyngor Gwynedd.

8. Prosiect Gwyrdd (Gwastraff Gweddilliol)

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Viridor ar gyfer trin 175,000 tunnelli o wastraff gweddilliol y flwyddyn yn yr hirdymor. £1.52m (cymorth caffael cyfalaf). £106.5m (cymorth ffi glwyd refeniw dros 25 mlynedd).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y consortiwm gan Gaerdydd, Casnewydd, Caerffili, Bro Morgannwg a Sir Fynwy. Mae cyfleuster masnachol ar gyfer Troi Gwastraff yn Ynni yn gweithredu ym Mharc Trident yng Nghaerdydd.

9. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol y Gogledd

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Wheelabrator Technologies ar gyfer trin 117,000 tunnelli o wastraff gweddilliol y flwyddyn yn yr hirdymor. £1.36m (cymorth caffael cyfalaf) £140.5m (cymorth refeniw i dalu ffi'r glwyd dros 25 mlynedd).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y consortiwm gan Wynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae cyfleuster adfer ynni Parc Adfer wrthi'n cael ei adeiladu yng Nglannau Dyfrdwy.

10. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Canol De Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae'r awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer trin eu gwastraff gweddilliol yn yr hirdymor.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae awdurdodau lleol yn cynnwys Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion a Phen-y-bont ar Ogwr.

11. Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory

Cyllid a chyflawni

Dyfarnwyd y contract i Viridor ar gyfer trin 90,000 tunnelli o wastraff gweddilliol y flwyddyn yn yr hirdymor. £1.59m (cymorth caffael cyfalaf) £57.75m (cymorth refeniw i dalu ffi'r glwyd dros 25 mlynedd).

Gwybodaeth ychwanegol

Crëwyd y consortiwm gan Rionda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Thorfaen.

12. Seilwaith

Cyllid a chyflawni

Mae gennym un rhaglen seilwaith craidd sy'n allweddol i weithredu'r strategaeth economi gylchol ac sy'n hanfodol i symud ymlaen ar ymrwymadau allweddol ar draws y llywodraeth (yn enwedig datgarboneiddio, bioamrywiaeth, datblygu'r economi llesiant, ac Adferiad Gwyrdd yn fwy cyffredinol).

O fewn y rhaglen honno mae tair is-raglen allweddol sy'n cynnwys o leiaf un prosiect craidd ar hyn o bryd ac a fydd yn ehangu wrth i'r gweithredu gynyddu:

- Seilwaith cenedlaethol strategol (prosiect yr AHP yw'r brif enghraifft gyfredol).
- Seilwaith rhanbarthol ac uwchraddio gwasanaethau lleol (yn rhanbarthol: Eco-barciau (cyfredol ac wedi'u cynllunio), prosiect gwastraff coed, plastigau swmpus; yn lleol: atgyweirio ac aildddefnyddio, casglu ac ailbroseu deunyddiau, gwella seilwaith y sector cyhoeddus).
- Datgarboneiddio'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu (ULEV, seilwaith codi tâl a depo, ynni adnewyddadwy).

Ynni

Mae gwariant ar draws y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn cefnogi ymrwymiad y Gweinidog i wario £104m yn gwella hyd at 25,000 o gartrefi tldi tanwydd rhwng 2017 a 2021. Yn fwy diweddar, mae gwariant hefyd yn cyd-fynd â maes blaenoriaeth ail-greu yn sgil Covid-19 sef cefnogi tai carbon isel ac ôl-ffitio i wneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni ac i leihau tldi tanwydd. Mae buddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at gyflogaeth yn sectorau adeiladu a dyfodol gwyrdd yr economi. Bydd cyfalaf ychwanegol o £4m yn 20/21 ar draws y Rhaglen yn cefnogi'r nodau hyn.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Nyth	£90m	£90m	Ebrill 2018	Mawrth 2023 gydag opsiwn pellach i'w ymestyn am hyd at ddwy flynedd ychwanegol
2. Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Arbed	£47m	£32m	2017	Tach 2021, gydag opsiwn i'w ymestyn hyd at 18 mis.
3. Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	£70m	£70m	2015	Tan 2022, fodd bynnag, opsiynau i'w cyflwyno ar gyfer 2022 ymlaen.

1. Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Nyth

Cyllid a chyflawni

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd rôl Rheolwr y Cynllun i British Gas ar gyfer contract Nyth 2 ar 1 Ebrill 2018. Dechreuodd y ddarpariaeth ar 1 Ebrill 2018 am bum mlynedd cychwynnol hyd at fis Mawrth 2023. Gwariant ar gyfer dwy flynedd gyntaf y contract rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2020 yw £36m.(18m y flwyddyn). Disgwylir i'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2020-21 fod ychydig dros £19m.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd Nyth yn parhau i fod yn gynllun tldi tanwydd wedi'i arwain gan y galw sy'n targedu pobl ar incwm isel sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth i helpu cartrefi i leihau eu biliau ynni a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae'r cymorth a ddarperir hefyd yn cynnwys atgyfeirio'r rhai sy'n gymwys i gael pecyn am ddim o welliannau effeithlonrwydd ynni i'w cartref. Mae meini prawf cymhwysedd y cynllun wedi'u hystyngiwr ar ffurf Pilot lechyd i gynnwys aelwydydd ag aelod sy'n dioddef o gyflyrau anadlol, cylchrediad y gwaed neu feddyliol rhagnodedig.

2. Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Arbed

Cyllid a chyflawni

Mae llifogydd yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2019-20 a Covid drwy gydol 2020-21 wedi cael effaith sylweddol ar niferoedd eiddo a gwariant. Er mwyn sicrhau adferiad, cytunodd MEERA i estyniad contract tactegol 6 mis (Mai i Tach 21) ym mis Tachwedd 20. Mae'r contract yn caniatáu estyniad(au) o hyd at 24 mis (hyd at fis Mai 2023). Ar hyn o bryd mae tîm y prosiect yn ystyried opsiynau o ran a ddylid ymestyn y contract y tu hwnt i 21 Tachwedd ai peidio.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Arbed yn rhaglen ardal sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim i gartrefi preifat/rhent ar draws lleihau eu biliau ynni. Cefnogir Arbed gan £15m o ERDF (cyfalaf).

Ym mis Mai 2018, penododd Llywodraeth Cymru reolwr cynllun i gyflawni Arbed, sy'n cyflogi 34 o staff FTE ac sydd â swyddfeydd yn y De a'r Gogledd. Mae'n defnyddio cadwyn gyflenwi BBaChau Cymru sy'n darparu swyddi medrus, hyfforddiant a manteision cymunedol ehangach.

Mae Arbed yn cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol canlynol gan Lywodraeth Cymru.

- Cynllun Tlodi Tanwydd
- Adferiad Gwyrdd
- Uchelgeisiau Di-garbon Net

3. Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae llif arfaethedig o brosiectau gwres, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy wedi cael ei ddatblygu yn Sector Cyhoeddus Cymru ynghyd â phrosiectau ynni adnewyddadwy a ddatblygwyd yn y gymuned yng Nghymru. Mae cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio drwy gronfeydd ailgylchadwy. Bydd prosiectau yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol yn parhau i gael arian o'r cronfeydd hyn. Rydym yn parhau i weithio i hyrwyddo cyfleoedd perchnogaeth a rennir ac i arloesi o ran cyllido prosiectau ar draws pob sector.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn dod â gwasanaethau ynni blaenorol ynghyd – Twf Gwyrdd Cymru, gan wasanaethu'r sector cyhoeddus a'r Gwasanaeth Ynni Lleol a chefnogi cynlluniau ynni cymunedol. Y nod yw cynyddu a chyflymu prosiectau i wneud buddsoddiadau gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar annog buddsoddiad mewn prosiectau gwres, effeithlonrwydd adnoddau a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyfres o ymyriadau ar draws pob sector i sicrhau arbedion heriol o ran allyriadau carbon deuocsid a buddsoddiadau. Mae ein cymorth a'n buddsoddiadau ariannol isel eu cost yn helpu i greu arbedion carbon ac arbedion ariannol o'r prosiect effeithlonrwydd ynni ar gyfer y sector cyhoeddus a ffrydiau referniw o brosiectau ynni adnewyddadwy Cymru.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y biblinell gyfalaf ar gyfer 2020-21 ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yw £13.9m.

Tai

Mae tai yn faes blaenoriaeth allweddol yn Ffyniant i Bawb, sy'n nodi ein gweledigaeth y dylai pawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Dros dymor y Senedd hon byddwn wedi buddsoddi £2bn i gydnabod pwysigrwydd tai da o ansawdd i gefnogi cymunedau llewyrchus. Mae pandemig COVID-19 wedi dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gydag ymdrech gadarn gan y system lawn a gefnogir gan fuddsoddiad sylweddol. Mae wedi tanlinellu pwysigrwydd y cartref a'r gymuned gyda chanolbwynt ar ddyfodol ein trefi.

Mae darparu tai o safon uchel yn cefnogi economi Cymru gan gynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu ynghyd â'r gadwyn gyflenwi. Mae darparu tai o ansawdd da yn helpu i fynd i'r afael â thlodi (gan gynnwys tldi tanwydd), ac mae'n gwella cyrhaeddiad addysgol.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Diogelwch Adeiladu – Adfer Adeiladau Preswyl Risg Uchel	£43m	£43m	2020	2022
2. Cronfa Datblygu Eiddo Cymru	£378m	£47m	2017	Caiff y buddsoddiad ei ailgylchu am 15 mlynedd
3. Cronfa Safleoedd Segur Cymru	£209m	£55m	2018	Caiff y buddsoddiad ei ailgylchu am 17 mlynedd
4. Y Gronfa Gofal Integredig	£145m	£80m	2020	2022
5. Y Cynllun Tir ar gyfer Tai	£200m	£62,	2014	Caiff y buddsoddiad ei ailgylchu am 15 mlynedd
6. Hunanadeiladu – Cymru	£210m	£40m	2019	Yn parhau
7. Rhaglen Tai Arloesol	£420m	£125m	2018	2021
8. Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol – Prif Raglen	£1291m	£749	2016	2022
9. Partneriaeth Tai Cymru	£75m	£15m	2018	2021
10. Cymorth i Brynu – Cymru	£531m – Cam 1 a 2. £74m – Cam 3	£531m – Cam 1 a 2. £74m – Cam 3	2014	Mawrth 2021 ar gyfer cam 2. Mawrth 22 neu Fawrth 23 ar gyfer cam 3
11. Rhentu i Brynu Cymru	£160m	£50m	2018	2021

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
12. Grant Addasiadau Ffisegol	£58m	£58m	2016	2021
13. Galluogi	£20m	£20m	2016	2021
14. Ymateb Covid Cam 2 – Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	I'w gadarnhau	£40m	2020	2021
15. Rhaglen Ôl-ffitio Wedi'i Optimeiddio	I'w gadarnhau	£40m	2020	2022

1. Diogelwch Adeiladu – Adfer Adeiladu Preswyl Risg Uchel

Cyllid a chyflawni

Cymeradwywyd £32m ychwanegol yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22. Bydd yr arian hwn yn helpu i gyflawni'r Cynllun Parhad. Bydd yr arian cyfalaf yn cefnogi adeiladau o 18 metr a throsodd (fel yr amlinellir yn y Map Ffordd) sydd â diffygion adeiladu a nodwyd mewn perthynas â diogelwch adeiladau a bydd yn helpu i gyflymu'r gwaith o fynd i'r afael â materion tân a materion strwythurol a nodwyd. Bydd hefyd yn helpu i gynnal ansawdd y stoc dai yng Nghymru ac yn caniatáu i breswylwyr, lesddeiliaid a thenantiaid deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi. Bydd buddsoddiad yn llifo drwy'r fasnach adeiladu sy'n gonglfaen i adferiad economaidd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r rhaglen diogelwch adeiladau yn cael ei datblygu ar sail drawslywodraethol. Ceir effeithiau uniongyrchol ar swyddogaethau Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Thai a Diogelu'r Cyhoedd o fewn awdurdodau lleol ac mae'n effeithio ar y Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r gwaith yn berthnasol i sawl maes o ddeddfwriaeth a bydd y diwygiadau hefyd yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd yn y dyfodol.

Lansiwyd Papur Gwyn sy'n cynnig Trefn Diogelwch Adeiladu newydd i Gymru ar 12 Ionawr 2021.

Mae hyn yn arwydd o gam sylweddol ymlaen yn ein cynlluniau i wella diogelwch adeiladau yn dilyn y digwyddiadau trasig yn Nhŵr Grenfell. Y newidiadau a gynigir o dan y drefn newydd yw'r diwygiadau diogelwch adeiladu mwyaf helaeth yn y DU.

2. Cronfa Datblygu Eiddo Cymru

Cyllid a chyflawni

Darperir y cynllun benthyciadau hwn gan Fanc Datblygu Cymru. Mae wedi'i dargedu at fusnesau bach a chanolig ledled Cymru ar gyfer prosiectau datblygu eiddo ar raddfa fach.

Gwybodaeth ychwanegol

Drwy'r Gronfa rydym yn darparu cyllid i BBaChau ar gyfer safleoedd sydd eisoes wedi pasio'r camau cynllunio a lle bo angen cyfalaf ar y datblygwyr ar gyfer y cam adeiladu. Fel y cyfryw, mae ei allu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mae BBaChau yn eu hwynebu o ran sicrhau bod rhai safleoedd ar gael i'w datblygu, yn gyfyngedig.

3. Cronfa Safleoedd Segur Cymru

Cyllid a chyflawni

Darperir y cynllun benthyciadau hwn gan Fanc Datblygu Cymru. Mae wedi'i anelu at fusnesau bach a chanolig ledled Cymru ar gyfer prosiectau datblygu eiddo ar raddfa fach i ganolig sy'n safleoedd segur.

Gwybodaeth ychwanegol

Cynlluniwyd y Gronfa i helpu i greu a hyrwyddo cyfleoedd datblygu i gwmnïau adeiladu BBaCh, ac i ddatgloi'r safleoedd sy'n cynnig manteision ehangach i'r cymunedau lle maent wedi'u lleoli.

4. Y Gronfa Gofal Integredig

Cyllid a chyflawni

Mae'r Gronfa Cymorth Canolraddol yn cefnogi'r GIG, gofal cymdeithasol, darparwyr tai a phartneriaid eraill i weithio gyda'i gilydd i ddarparu tai a llety sy'n cefnogi modelau gofal sy'n galluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol, neu i adennill eu gallu i fyw'n annibynnol drwy leoliadau gofal canolraddol, a darparu llety lleol i bobl sy'n agored i niwed a allai fel arall gael eu lleoli mewn mannau sy'n bell oddi wrth deulu a ffrindiau, gan gynnwys y tu allan i'r sir a'r tu allan i'r wlad.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cyllid yn darparu atebion wedi'u harwain gan lety i bobl hŷn, pobl sy'n dioddef o ddementia, pobl ifanc ag anghenion cymhleth a gofalwyr a phobl ag anabledau dysgu.

5. Y Cynllun Tir ar gyfer Tai

Cyllid a chyflawni

Mae'r cynllun yn agored i landlordiaid cymdeithasol preifat a all wneud cais am fenthyciad i sicrhau tir ar gyfer datblygu tai fforddiadwy a/neu dai ar gyfer y farchnad.

Gwybodaeth ychwanegol

Caiff cronfa'r benthyciad ei hailgylchu drwy gydol oes y rhaglen unwaith yr ad-delir y benthyciad. Fe'i darperir gan Gymdeithasau Tai ac mae'n cyfrannu at gynyddu'r cyflenwad o dai drwy alluogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i brynu tir ar gyfer datblygu tai.

6. Hunanadeiladu – Cymru

Cyllid a chyflawni

Darperir y cynllun benthyciadau hwn gan Fanc Datblygu Cymru. Caiff £10m ei ddarparu fel benthyciadau i awdurdodau lleol ar gyfer paratoi plot, caiff £30m ei ddarparu fel benthyciadau i ymgeiswyr y cynllun. Darparwyd cyllid yn 2018-19 er mwyn helpu i ddatblygu'r cynllun. Lanswyd y cynllun yn ystod hydref 2019.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i ddarparu cyllid benthyciadau i bobl sy'n ystyried adeiladu eu cartrefi eu hunain. Bydd y cynllun yn galluogi ymgeiswyr i greu hyd at 30% o ecwiti yn eu cartrefi drwy ddileu'r elw y bydd cwmnïau mawr adeiladu tai fel arfer yn ei gael. Bydd y cynllun hefyd yn annog BBaChau i adeiladu tai unwaith eto.

7. Rhaglen Tai Arloesol

Cyllid a chyflawni

Nod y rhaglen yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu dyluniadau tai arloesol yng Nghymru. Yn dilyn cyfnod cychwynnol yn 2017-18, cyflwynwyd y rhaglen lawn yn 2018-19 am dair blynedd ychwanegol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae buddsoddi mewn tai yn cefnogi economi Cymru drwy gynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu ynghyd â'r gadwyn gyflenwi. Dulliau Adeiladu Modern (MMC) oedd y maes â ffocws ar gyfer ariannu yn 2020-21 ac mae'r rhaglen wedi dangos y gallwch ddarparu cartrefi o ansawdd gwell i bobl yn gyflymach a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn eu cymunedau hefyd.

8. Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol – Prif Raglen

Cyllid a chyflawni

Ar y gweill (rhaglen dreigl o ddatblygiadau) Mae'r Rhaglen yn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy. Telir grantiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL) sy'n gyfrifol am benodi contractwyr. Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am benderfynu pa gynlluniau tai fforddiadwy a gaiff eu blaenoriaethu am gyllid a pha RSL fydd yn datblygu ac yn rheoli'r cynlluniau.

Gwybodaeth ychwanegol

Caiff y cynlluniau eu trefnu dair i bum mlynedd ymlaen llaw gyda dyddiadau cychwyn hyblyg.

9. Partneriaeth Tai Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae Partneriaeth Tai Cymru yn cynnwys pedwar RSL sef Cartrefi Pennant, Grŵp Hendre, Grŵp Seren a Grŵp Cynefin. Mae'r Partneriaeth yn "Gyfrwng at Ddibenion Arbennig" sy'n eiddo i'r pedwar aelod sy'n darparu eiddo am rent canolraddol. Mae'r model yn gymharol newydd o ran y ffaith y bydd y Partneriaeth yn prynu'r eiddo ac yna'n prydlesu'r eiddo hwnnw yn ôl i'r cymdeithasau am gyfnod o ddeng mlynedd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Partneriaeth naill ai'n prynu eiddo o'r farchnad agored - eiddo sydd newydd gael ei gwblhau'n ddiweddar neu anheddau presennol.

10. Cymorth i Brynu – Cymru

Cyllid a chyflawni

Mae Cymorth i Brynu yn darparu benthyciad rhannu ecwiti i brynwyr cartrefi sydd newydd eu hadeiladu. Nod y cynllun oedd cyfrannu 6000 o gartrefi at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol. Mae'r cynllun ar y trywydd iawn i ddarparu mwy na 11,000 o gartrefi.

Gwybodaeth ychwanegol

Ym mis Medi 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gam 3 y cynllun am 12 mis, hyd at fis Mawrth 2022, gydag ymrwymiad i 12 mis ychwanegol hyd at fis Mawrth 2023, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

11. Rhentu i Brynu Cymru

Cyllid a chyflawni

Bydd grant cyfalaf o £70m yn cael ei dalu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru i ddarparu cartrefi newydd a fydd ar gael ar gyfer Rhentu i Brynu neu Ranberchnogath. Rhagwelir y bydd dros 1,000 o gartrefi'n cael eu darparu gan y cynllun hwn.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y cynllun ar gael ledled Cymru; a bydd yn helpu pobl nad ydynt ar hyn o bryd yn berchnogion tai, i wneud hynny ar y farchnad agored neu drwy Cymorth i Brynu.

12. Grant Addasiadau Ffisegol

Cyllid a chyflawni

Grantiau cyfalaf i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu addasiadau i bobl anabl mewn tai cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cael ei arwain gan y galw felly mae'r gost yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn fras yn yr amrediad £8-11m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae addasiadau'n helpu tenantiaid i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, pe bai eu hamgylchiadau'n newid, ac maent yn helpu hefyd gydag oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd wedyn yn sicrhau arbedion i gyllidebau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

13. Galluogi

Cyllid a chyflawni

Grant cyfalaf blynyddol o £4m i awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau i bobl anabl mewn tai perchenfeddiannaeth, tai rhent preifat a rhai awdurdodau lleol. Mae'n galluogi gwneud addasiadau'n gyflym heb droi at brofion modd y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae addasiadau'n helpu tenantiaid i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, pe bai eu hamgylchiadau'n newid, ac maent yn helpu hefyd gydag oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd wedyn yn sicrhau arbedion i gyllidebau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

14. Ymateb Covid Cam 2 – Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai

Cyllid a chyflawni

Cyllid blwyddyn i ddatblygu a darparu opsiynau arloesol ar gyfer llety addas dros dro a llety â chymorth. Telir y grant i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r cyllid yn cefnogi amrywiaeth o wahanol fathau o gynllun – caffael, adnewyddu, ad-drefnu ac adeiladu o'r newydd, gan gynnwys MMC.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Cam cynllunio a darparu yn rhan o ymateb COVID-19 i ddigartrefedd ac felly mae'n cael ei gynnal mewn amgylchiadau eithriadol.

15. Rhaglen Ôl-ffitio Wedi'i Optimeiddio

Cyllid a chyflawni

Prif ffocws y Rhaglen Ôl-ffitio Wedi'i Optimeiddio yw datgarboneiddio cartrefi gan greu ar yr un pryd nifer o fanteision eraill drwy ddatblygu sgiliau, offer asesu, cadwyni cyflenwi a fframweithiau caffael newydd sy'n annog datblygu BBaChau ac yn creu swyddi. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein galluogi i brofi'r dull gweithredu mewn llawer mwy o gartrefi. Mae'n hawdd ei ehangu ac yn gynaliadwy a gall feithrin digon o wybodaeth ac arbenigedd Cymreig i helpu i ehangu'r cynllun a helpu i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio ar gyfer 2050.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y rhaglen hon yn darparu pecyn ysgogi ar gyfer hybu twf economaidd. Wrth gwrs, un o'i fanteision allweddol eraill yw ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Unwaith y byddant wedi'i gwreiddio, bydd y Rhaglen Ôl-ffitio hefyd yn cefnogi'r her tymor hwy o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Adfywio

Cyhoeddwyd pecyn Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2020 ac mae dyraniadau a wnaed yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 yn golygu bod cyllid cyfalaf wedi'i gadarnhau ar gyfer buddsoddi yng nghanol trefi ledled y wlad yn dod i ymhell dros £100m. Nod Trawsnewid Trefi yw pwysleisio llu o resymau dros ymweld â chanol trefi; nid yn unig i siopa, ond at ddibenion hamdden, gwasanaethau, byw, gweithio a phrofiad ac i annog ein partneriaid i leoli gwasanaethau yng nghanol trefi. Mae cymunedau wrth wraidd y weledigaeth hon i greu amgylcheddau canol tref o ansawdd uchel sy'n cyfrannu at iechyd a lles pobl gan ysgogi twf economaidd ar yr un pryd. Mae effaith pandemig y coronafeirws ar ganol ein trefi wedi ei gwneud yn bwysicach byth inni barhau â'n hagenda Trawsnewid Trefi.

Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'r stryd fawr, a chanol ein trefi a'n dinasoedd, gan danlinellu'r angen i ailystyried sut yr ydym yn defnyddio manau cyhoeddus ar gyfer hamdden, dysgu, a byw. Mae hefyd wedi ailbwsleisio'r angen am wasanaethau hygyrch lleol.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Trawsnewid Trefi – Cronfa Benthyciadau	£100m	£42m	2014	Yn parhau
2. Benthyciadau Eiddo (Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau Gwella Cartrefi gynt)	£120m	£40m	2012	Yn parhau
3. Trawsnewid Trefi – Adeiladu ar gyfer y Dyfodol	£120m	£16m	2017	2023
4. Trawsnewid Trefi – Rhaglen Gyfalaf	£367m	£141.5m	2018	2022
5. Trawsnewid Trefi – Rhaglen Safleoedd Strategol	£70m	£30m	2021	Yn parhau

1. Trawsnewid Trefi – Cronfa Benthyciadau

Cyllid a chyflawni

Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi cael £41.5m o gyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru hyd at 2020-21. Caiff y cynllun ei weinyddu gan Awdurdodau Lleol a'i ddarparu drwy drydydd partïon.

Gwybodaeth ychwanegol

Nod y cynllun yw gweithredu fel catalydd i ailddefnyddio adeiladau gwag ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon a chefnogi arallgyfeirio yng nghanol trefi. Ar hyn o bryd mae'r cynllun benthyciadau yn cefnogi 30 o ganol trefi ledled Cymru.

2. Benthyciadau Eiddo (Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau Gwella Cartrefi gynt)

Cyllid a chyflawni

Hyd yn hyn, mae'r cynlluniau wedi cael £40m o gyllid wedi'i gymeradwyo gan LIC. Mae'r cyllid ar gael dros gyfnod o 15 mlynedd a dylid ei ailgylchu 3 gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Gweinyddir y cynllun gan yr ALLau. Mae benthyciadau i landlordiaid preifat wedi bod ar gael ers hynny. Mae perchen-feddianwyr wedi gallu cael gafael ar gyllid ers 2014.

Gwybodaeth ychwanegol

Nod y cynlluniau yw darparu cyllid cyfalaf i ALLau i ddarparu cymorth ariannol drwy fenthyciadau neu grantiau. Gall perchen-feddianwyr ddefnyddio'r cyllid i wella eu heiddo, gan sicrhau eu bod yn gynnes, yn ddiogel, yn ddiogel ac yn effeithlon o ran ynni. Gall landlordiaid yn y sector preifat gael gafael ar y cyllid i ddod ag eiddo preswyl neu fasnachol gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi i'w rhentu neu eu gwerthu. Mae'r cynlluniau ar gael i bob ALI.

3. Trawsnewid Trefi – Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

Cyllid a chyflawni

Bydd Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn helpu i adfywio canol trefi a'r ardaloedd o'u cwmpas, gan gefnogi strategaeth economaidd drefol neu ranbarthol drwy fynd i'r afael â thir neu adeiladau gwag, nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon. Bydd yn prynu, yn adnewyddu neu'n ailddatblygu tir ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghanol trefi a dinasoedd ledled Cymru, neu'n agos iawn atynt, gan greu swyddi a thwf a chyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Caiff y rhaglen ei darparu drwy gyfuniad o £38m o gyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ac £16m o Arian Cyfatebol a Dargedir (TMF) a ddarparwyd gan Is-adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd LIC yn gweithio gyda phartneriaid sector preifat ac awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn safleoedd tir nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon ac adeiladau gwag â blaenoriaeth sydd wedi gweithio i danseilio hyder buddsoddwyr. Er y bydd cymorth yn cael ei roi i bartneriaid ar gyfer adnewyddu adeiladau a datblygu safleoedd gwag, caiff cyllid ei ddyrannu a'i ategu ar sail y ffaith y bydd defnydd economaidd a chynaliadwy yn y pen draw. Er nad yw'r 40 prosiect o fewn y rhaglen wedi'u harfarnu'n llwyr eto, dyma'r allbynnau allweddol a nodwyd gan bartneriaid: 1,800 o swyddi mewn lleoliad newydd, 650 o swyddi wedi'u creu.

4. Trawsnewid Trefi – Rhaglen Gyfalaf

Cyllid a chyflawni

Cyllid gan Llywodraeth Cymru ynghyd ag arian cyfatebol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyflawnir y prosiectau a'r rhaglenni gan bartneriaid ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Lansiwyd Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr 2020 i fynd i'r afael â'r dirywiad yng nghanol trefi a'r gostyngiad yn y galw am fanwerthu ar y stryd fawr ac mae'n adeiladu ar y Rhaglen waith bresennol a ddechreuodd yn 2018. Ffocws y Rhaglen yw twf cynaliadwy ein trefi, drwy ymyriadau sy'n cynnwys gwell bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd; aildddefnyddio adeiladau adfeiliedig; cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn trefi gyda phwyslais ar weithio hyblyg a lle byw; a mynediad at wasanaethau a hamdden. Yn ogystal, mae ein gwaith i drawsnewid trefi yn cydweithio ar draws y Llywodraeth i wella buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes megis gwelliannau trafniadaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol gwell.

5. Trawsnewid Trefi – Rhaglen Safleoedd Strategol

Cyllid a chyflawni

Cyllid benthyciad llywodraeth Cymru ynghyd ag arian y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Rhaglen ddatblygol hon yn rhan o Trawsnewid Trefi ac mae'n cynnig cyllid benthyciad hirdymor i chwilio am safleoedd strategol sydd wedi'u gohirio a'u haildoli mewn lleoliadau canol trefi i'w datblygu. Yr uchelgais yw creu safleoedd tai o ansawdd uchel sy'n ymgorffori safonau gofod Llywodraeth Cymru, gwell effeithlonrwydd ynni, gallu trafniadaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol i leihau dibyniaeth ar geir, manau gwyrdd a 50% o dai fforddiadwy.

Addysg

Mae Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau gwelliant y mae galw mawr amdano i'n seilwaith addysgol. Bydd yn darparu'r amgylcheddau dysgu gorau i'n disgyblion, sy'n addas ar gyfer cyflwyno cwricwlwm ar gyfer yr 21ain ganrif. Eir i'r afael â rhan sylweddol o'r ystad addysg, gwella cyflwr adeiladau, gwneud ysgolion a cholegau yn fwy addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a darparu digon o leoedd, tra'n sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

Roedd ton gyntaf y Rhaglen yn golygu buddsoddiad o fwy na £1.4bn i gyflawni band A dros y cyfnod o bum mlynedd a ddaeth i ben yn 2018-19. Manteisiodd pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol ar y buddsoddiad, a arweiniodd at ailadeiladu ac adnewyddu tua 170 o ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Cafodd ail gyfnod y Rhaglen ei lansio yn Ebrill 2019, a rhagwelir £2.3 biliwn o fuddsoddiad ledled Cymru. Bydd hyn yn cefnogi tua 200 o brosiectau i ailadeiladu ac ailwampio ysgolion a cholegau. Mae'r gyfradd ymyrraeth grant ar gyfer buddsoddi cyfalaf wedi cynyddu ar gyfer yr ail don i 65% ar gyfer ysgolion a cholegau; gyda 75% ac 85% ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn y drefn honno. Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich ariannol ar yr awdurdodau lleol.

Mae'r dyraniadau cynllun unigol a amlinellir yn agored i newid yn seiliedig ar werthusiad blynyddol o bob rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd yn dda â strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb, Symud Cymru Ymlaen ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, gan ei bod yn darparu amgylcheddau priodol ar gyfer darparu addysg a dysgu rhagorol.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cymru gyfan	£1.4bn	£700m	2013	2019
2. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cymru gyfan	£2.3bn	£1.22bn	2019	2024
Mae'r cynlluniau a restrir isod yn cynrychioli lefelau ariannu 'mewn egwyddor ar gyfer awdurdodau lleol a cholegau unigol o'r ail don o gyllid Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Cymru Gyfan. Mewn gwirionedd, gall lefelau buddsoddi newid wrth i achosion busnes gael eu cymeradwyo.				
3. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Ynys Môn	£36.14m	£23.49m	2019	2024
4. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Blaenau Gwent	£19.6m	£12.74m	2019	2024
5. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Pen-y-bont ar Ogwr	£68.2m	£45.31m	2020	2024
6. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Caerffili	£110.3m	£51.60m	2019	2024

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
7. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Caerdydd	£284m	£164.76m	2019	2024
8. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Gaerfyrddin	£129.5m	£75.725m	2019	2024
9. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain ganrif Ceredigion	£13.7m	£8.90m	2019	2024
10. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain ganrif Conwy	£43.1m	£2.70m	2019	2024
11. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Ddinbych	£80.5m	£56.11m	2019	2024
12. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir y Fflint	£85.4m	£56.02m	2019	2024
13. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Gwynedd	£56.1m	£37.46m	2019	2024
14. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Merthyr Tudful	£56.58m	£42.45m	2019	2024
15. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Fynwy	£45.4m	£29.60m	2019	2024
16. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Castell-nedd Port Talbot	£80.5m	£52.33m	2019	2024
17. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Casnewydd	£70m	£45.50m	2019	2024
18. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Benfro	£106.4m	£63.44m	2019	2024
19. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Rhondda Cynon Taf	£113.9m	£73.52m	2019	2024
20. Rhondda Cynon Taf 21 st Century Schools and Colleges Programme	£167.4m	£52.92m	2019	2024

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
21. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Abertawe	£149.7m	£93.45m	2019	2024
22. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Torfaen	£45.9m	£35.44m	2019	2024
23. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Bro Morgannwg	£166.8m	£76.18m	2019	2024
24. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Wrecsam	£88.7m	£23.99m	2019	2024
25. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	£30.46m	£19.80m	2019	2024
26. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Sir Gâr	£25m	-	2019	2024
27. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Gwent	£59.4m	£2.21m	2019	2024
28. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg y Cymoedd	£9.5m	£6.18m	2019	2024
29. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Cambria	£40m	£28.87m	2019	2024
30. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Grŵp Llandrillo Menai	£50.27m	£32.68m	2019	2024
31. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Merthyr Tudful	£4.5m	£2.93m	2019	2024
32. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Caerdydd a'r Fro	£34m	-	2019	2024
33. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Sir Benfro	£7.34m	£4.77m	2019	2024

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
34. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Gŵyr Abertawe	£26.07m	£16.95m	2019	2024
35. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Grŵp NPTC	£37.08m	£6.97m	2019	2024
36. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Dewi Sant.	£5.98m	£3.89m	2019	2024
37. Dechrau'n Deg (ehangu)	£62.5m	£62.5m	2012	Yn parhau
38. Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg: Canolfannau Dysgu Cymunedol	£30m	£15m	2018	2020

1. Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cymru gyfan

Cyllid a chyflawni

Cyllid Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. 50% o arian cyfatebol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, yn ddibynnol ar dderbyn a chymeradwyo achosion busnes ar gyfer prosiectau unigol.

Er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cwblhau, manylir ar unrhyw fuddsoddiadau parhaus yn yr adran yr ALL perthnasol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nod y rhaglen yw gwella ysgolion a cholegau mewn cyflwr gwael, lleihau capasiti dros ben a gwella safonau drwy ddarparu amgylchedd sy'n gallu cyflwyno cwricwlwm ar gyfer yr 21ain ganrif. Cyhoeddwyd yr ail don o fuddsoddiad yn ddiweddar ac mae'n cael ei datblygu gyda'n partneriaid. Dechreuodd hyn yn 2019 ac mae'n cynnwys cyllid drwy gyfalaf traddodiadol a buddsoddiad £500m a alluogir drwy gyllid refeniw, drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

2. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cymru gyfan

Cyllid a chyflawni

Cyllid Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd arian cyfatebol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar natur y cyfleuster addysg ond bydd yn 65% o leiaf. Mae hyn yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo achosion busnes ar gyfer prosiectau unigol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i wella ysgolion a cholegau sydd mewn cyflwr gwael, gostwng nifer y lleoedd dros ben, a gwella safonau drwy ddarparu amgylchedd sy'n gallu cyflwyno cwricwlwm ar gyfer yr 21ain ganrif. Dechrau yn 2019, ac yn cynnwys cyllid drwy gyfalaf traddodiadol a £500m o fuddsoddiad sy'n bosibl oherwydd cyllid refeniw, drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

3. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Ynys Môn

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £23.49m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Ynys Môn.

4. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Blaenau Gwent

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £12.74m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Blaenau Gwent.

5. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Pen-y-bont ar Ogwr

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £45.431m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

6. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Caerffili

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £51.60m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £26.86m yn dod gan Awdurdod Lleol Caerffili a £31.84m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

7. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Caerdydd

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £164.76m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £74.04m yn dod gan Awdurdod Lleol Caerdydd a £45.20m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yng Nghaerdydd yn cynnwys Ysgol Uwchradd Fitzalan.

8. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Gaerfyrddin.

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £75.725m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £36.775m yn dod gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin a £17m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Roedd y prosiectau gymeradwywyd hyd yma yn Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin yn cynnwys Ysgol Pum Heol ac Ysgol Penbre.

9. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain ganrif Ceredigion

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £8.90m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Ceredigion.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Ceredigion yn cynnwys ysgol gynradd Aberteifi.

10. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain ganrif Conwy

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £2.70m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £1.20m yn dod gan Awdurdod Lleol Conwy a £39.2m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

11. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Ddinbych

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £56.11m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Sir Ddinbych.

12. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir y Fflint

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £56.02m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Sir y Fflint.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd yn Awdurdod Lleol Sir y Fflint hyd yma yn cynnwys Ysgol Uwchradd Cei Connah (Cam 3).

13. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Gwynedd

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £37.46m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Gwynedd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwyd yn Awdurdod Lleol Gwynedd hyd yma yn cynnwys Ysgol Cymerau.

14. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Merthyr Tudful

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £42.45m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Merthyr Tudful.

15. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Fynwy

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £29.6m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Sir Fynwy.

16. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Castell-nedd Port Talbot

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £52.33m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Ysgol Gynradd Abbey ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera.

17. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Casnewydd

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £45.5m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Casnewydd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Casnewydd yn cynnwys Ysgol Gyfun Gwent is Coed.

18. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Sir Benfro

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £63.44m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Sir Benfro a £7.77m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Sir Benfro yn cynnwys Ysgol Uwchradd Hwlfordd.

19. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Powys

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £73.52m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Powys.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Powys yn cynnwys adnewyddu Ysgol Uwchradd y Trallwng.

20. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Rhondda Cynon Taf

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £52.92m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £29.00m yn dod gan Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf a £85.48 drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys Ysgol Gynradd Hirwaun newydd.

21. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Abertawe

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £93.45m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £41.01m yn dod gan Awdurdod Lleol Abertawe a £15.23m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Abertawe yn cynnwys yr Uned Cyfeirio Disgyblion, Ysgol Tirdeunaw, Ysgol Tan-y-Lan, Ysgol Gŵyr ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt (adnewyddu).

22. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Torfaen

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £35.44m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Torfaen.

23. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Bro Morgannwg

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £76.18m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £58.76m yn dod gan Awdurdod Lleol Bro Morgannwg a £31.86m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Bro Morgannwg yn cynnwys Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Bro Morgannwg a Glannau'r Barri, Ysgol Uwchradd Pencoedtre, Ysgol Gynradd Llancarfan ac Ysgol Gynradd Dewi Sant.

24. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Wrecsam

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £23.99m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £12.67m yn dod gan Awdurdod Lleol Wrecsam a £52m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn ALI Wrecsam yn cynnwys ysgol gynradd cyfrwng Saesneg Borrás.

25. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £19.8m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddiill yn dod gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys Academi STEAM.

26. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Sir Gâr

Cyllid a chyflawni

Mae Coleg Sir Gâr yn bwriadu talu am eu rhaglen drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

27. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Gwent

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £2.21m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £1.19m yn dod gan Goleg Gwent a £56m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn Awdurdod Lleol Coleg Gwent yn cynnwys Cyfleusterau Arlwyio Newydd ar Gampws Brynbuga.

28. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg y Cymoedd

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £6.18m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddiill yn dod gan Goleg y Cymoedd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yng Ngholeg y Cymoedd yn cynnwys prosiect campws y Rhondda.

29. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Cambria

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £28.87m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddiill yn dod gan Goleg Cambria.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn Awdurdod Lleol Coleg Cambria yn cynnwys Hwb Technoleg Iâl.

30. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Grŵp Llandrillo Menai

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £32.68m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £17.59m gan Grŵp Llandrillo Menai.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yn Awdurdod Lleol Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys Gofal Anifeiliaid Bach Glynllifon.

31. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Merthyr Tudful

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £2.93m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Goleg Merthyr Tudful.

32. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Caerdydd a'r Fro

Cyllid a chyflawni

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn bwriadu talu am eu rhaglen drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

33. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Sir Benfro

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £4.77m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Sir Benfro.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma yng Ngholeg Sir Benfro yn cynnwys ailfodelu ac adnewyddu'r campws.

34. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Gŵyr Abertawe

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £16.95m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Awdurdod Lleol Coleg Gŵyr Abertawe.

35. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Grŵp NPTC

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £6.97m o gyfanswm cost y cynllun, gyda £3.75m yn dod gan Grŵp NPTC a £26.36m drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

36. Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Coleg Dewi Sant.

Cyllid a chyflawni

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £3.89m o gyfanswm cost y cynllun, gyda'r gweddill yn dod gan Goleg Dewi Sant.

37. Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg: Canolfannau Dysgu Cymunedol

Cyllid a chyflawni

Caiff Cynlluniau Peilot eu nodi a'u cyflwyno drwy Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r prosiectau sy'n cael eu hadeiladu yn cynnwys clwb athletau cymunedol yn ysgol gynradd Rhiw Syr Dafydd, Caerffili; ystafell gymunedol yn Ysgol Rhys Pritchard, Sir Gaerfyrddin; cyfleuster cymunedol fel rhan o Gampws Cymunedol Queensferry, Sir y Fflint; hybiau cymunedol yn Ysgol y Faenol ac Ysgol Cymerau, Gwynedd; clinig creadigol a chanolfan gelfyddydau'r cyfryngau, a pharth canolfan gymunedol Gurnos Merthyr Tudful; Canolfan Chwaraeon a Chwarae Parc Camlas, Coleg Caerdydd a'r Fro; Canolfan dysgu cymunedol Llysfasi, Coleg Cambria.

38. Dechrau'n Deg

Cyllid a chyflawni

Darperir cyllid i Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cyfleusterau o ansawdd uchel ar gael i gyflawni'r rhaglen Dechrau'n Deg. Gwahoddir Awdurdodau Lleol i wneud cais am gyllid yn flynyddol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Dechrau'n Deg yn rhan annatod o raglenni trechu tldi Llywodraeth Cymru i helpu 36,000 o blant 0-4 oed, sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru drwy roi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bydd cyllideb cyfalaf y GIG yn parhau i gael ei buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a hygyrch o ansawdd uchel ac i fwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd yn y sectorau aciwt a sylfaenol a chymunedol. Bydd y gyllideb cyfalaf hefyd yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau â blaenoriaeth sy'n cwmpasu offer delweddu a diagnostig, cyfleoedd datgarboneiddio, iechyd meddwl a seilwaith ysbytai ehangach gan gynnwys digidol a gwybodeg. Yn 2020-21 cyfanswm y gwariant cyfalaf ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw £407m.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru – Adnewyddu Cerbydau'n Barhaus	£127m	£127m	2018	2028
2. Ailddatblygu Ysbyty Felindre	£210m	£210m	-	-
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, ailwampio'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf	£225m	£225m	2018	Yn parhau
4. Cynllun Cymru Gyfan – Cyfres o Brosiectau Gofal Sylfaenol	£85m	£85m	2018	2024
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Iechyd a Llesiant Tredega	£20m	£20m	2021	2023
6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Iechyd a Llesia	£26m	£26m	2021	2023
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Hwb Llesiant ym Maelfa	£14m	£14m	2021	2023
8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Canolfan Iechyd a Llesiant Sunnyside (Pen-y-bont ar Ogwr)	£11m	£11m	2021	2023
9. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Cyfleusterau Newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili – Cam 2	£26m	£26m	2018	2021

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Cymorth Llywodraeth Cymru (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
10. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Ysbyty Cymunedol Gogledd Dinbych	£40m	£40m	2020	2022
11. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Ailddatblygu'r Uned Iechyd Meddwl i Gleifion Mewnol yn Ysbyty Glan Clwyd	£26m	£26m	2021	2023
12. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Radiotherapi Ategol	£32m	£32m	2021	2023
13. Hywel Dda/Bae Abertawe/ Iechyd Cyhoeddus Cymru – Patholeg Ranbarthol	£77m	£77m	2021	2026
14. Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Golchdai	£35m	£35m	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
15. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Uned Sterileiddio a Dadhalogi Ysbytai	£16m	£16m	2019	2021

1. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru – Adnewyddu Cerbydau'n Barhaus

Cyllid a chyflawni

Cyllid gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes unigol.

Mae'r Rhaglen (SOP) wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys cerbydau newydd blynyddol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen uchelgeisiol ar gyfer gwella gwasanaethau, sy'n moderneiddio'r modd y caiff gwasanaethau rheng flaen eu darparu gyda'r nod o wella effeithlonrwydd cyffredinol. Bwriad penodol y rhaglen fflydoedd yw cefnogi a gwella'r model newydd o arferion gweithredol a darparu gwasanaeth ar yr un pryd â sicrhau bod fflydoedd gwell yn gweithredu mor effeithlon â phosibl.

2. Ailddatblygu Ysbyty Felindre

Gwybodaeth ychwanegol

Model Buddsoddi Cydfuddiannol. SOP wedi'i hardystio a'r achos busnes amlinellol wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae cyfanswm gwerth y cynllun yn seiliedig ar brisiau 2013-14.

3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, ailwampio'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf

Cyllid a chyflawni

Cyllid gan LIC ar yr amod bod yr achos busnes yn cael ei gymeradwyo. Mae Cam 1a bellach wedi gorffen ac mae gwaith wedi cychwyn ar Gam 1b – i fod i orffen yn 2021. Mae'r achos busnes llawn ar gyfer Cam 2 yn destun craffu ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau Iechyd a Diogelwch, yn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, ansawdd a chynhyrchiant, yn unol â chyfeiriad strategol clinigol ac ariannol Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn ehangach ac yn aiddylunio ardaloedd clinigol i ddarparu llety hyblyg, diogel a chroesawgar.

4. Cynllun Cymru Gyfan – Cyfres o Brosiectau Gofal Sylfaenol

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Llif o 19 o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol ledled Cymru (tua £85m). Bwriad y prosiectau yw buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig sy'n un o ymrwymadau allweddol Symud Cymru Ymlaen ac yn un o gonglfeini'r Polisi Iechyd yn Ffyniant i Bawb. Mae LIC nawr yn gweithio gyda chyrrff y GIG i ddatblygu achosion busnes er mwyn gallu gweithredu a darparu. O blith y 15 prosiect cyfalaf a gynlluniwyd, mae 2021 wedi gorffen, bydd 22 yn gorffen yn 2019-20 ac mae'r achosion busnes ar gyfer y lleill wrthi'n cael eu cwblhau.

Sylwer nad yw gwerth y cynllun a ffigurau cymorth Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cynlluniau gofal sylfaenol a grybwyllir isod.

5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Iechyd a Llesiant Tredega

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Mae'r achos busnes terfynol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun ar gyfer datblygu Canolfan Iechyd a Llesiant newydd yn Nhredegar. Mae hyn yn rhan o gynllun llif arfaethedig Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan.

6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Iechyd a Llesia

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Mae'r achos busnes amlinellol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun ar gyfer datblygu Canolfan Iechyd a Llesiant newydd yn Nwyrain Casnewydd. Mae hyn yn rhan o gynllun llif arfaethedig Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan.

7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Hwb Llesiant ym Maelfa

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Cymeradwywyd yr achos busnes terfynol ym mis Rhagfyr 2020.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun ar gyfer datblygu cynllun newydd ar gyfer Canolfan Iechyd Llanedeyrn. Mae hyn yn rhan o gynllun llif arfaethedig Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan.

8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Canolfan Iechyd a Llesiant Sunnyside (Pen-y-bont ar Ogwr)

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Cymeradwywyd yr achos busnes terfynol ym mis Medi 2020.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun ar gyfer datblygu Canolfan Iechyd a Llesiant integredig ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn rhan o Bentref Iechyd a Lles llawer mwy gan gynnwys anghenion cyffredinol a thai â chymorth. Mae hyn yn rhan o Gynllun Piblinellau Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan.

9. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Cyfleusterau Newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili – Cam 2

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Cymeradwywyd yr achos busnes llawn yn ystod gwanwyn 2018 – mae gwaith wedi cychwyn a bydd wedi gorffen erbyn 2020.

Gwybodaeth ychwanegol

Bwriad Cam 2 yw mynd i'r afael â'r meysydd brys a nodwyd yn adroddiad y Coleg Brenhinol a sicrhau amgylchedd parhaol diogel a phriodol ar gyfer darparu gwasanaethau newyddenedigol ac obstetrig yn Ysbyty Glangwili.

10. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Ysbyty Cymunedol Gogledd Dinbych

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Mae'r achos busnes amlinellol wedi cael ei gymeradwyo a bydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno ddechrau 2021.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y cynllun yn darparu ystod o wasanaethau sydd wedi cael eu haildylunio a'u ehangu ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl, Sir Ddinbych, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, ac yn y cyffiniau. Bydd y datblygiad newydd yn helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau yn Ysbyty Glan Clwyd.

11. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Ailddatblygu'r Uned Iechyd Meddwl i Gleifion Mewnol yn Ysbyty Glan Clwyd

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi cael ei hardystio. Disgwylir yr achos busnes amlinellol ddechrau 2020 a'r achos busnes llawn ddechrau 2021. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi gorffen ddechrau 2023.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cynllun yn ymwneud ag ailddatblygu'r Uned ar gyfer cleifion iechyd meddwl mewnol yn Ysbyty Glan Clwyd.

12. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Canolfan Radiotherapi Ategol

Cyllid a chyflawni

Cyllid Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes terfynol. Cymeradwywyd yr achos busnes amlinellol ym mis Ionawr 2021. Dylid nodi y gallai'r cyllid newid fel rhan o broses yr achos busnes llawn.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae hwn yn brosiect ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac Ymddiriedolaeth Felindre. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain ar y cynllun gan y bydd y ganolfan yn ased gan Aneurin Bevan ar safle Nevill Hall. Byddai'n ganolfan ategol i Ganolfan Ganser Felindre, a'r Ymddiriedolaeth yn darparu'r staff. Gan fod y Rhaglen Waith Trawsnewid Gwasanaethau Canser ehangach yn destun adolygiad, cydnabuwyd bod angen datblygu'r ganolfan i fodlonio'r galw ac i sicrhau cynaliadwyedd a gwydnwch yn y dyfodol, yn ogystal ag i ddarparu gwasanaethau radiotherapi mwy hygyrch ar gyfer y De-ddwyrain.

13. Hywel Dda/Bae Abertawe/Iechyd Cyhoeddus Cymru – Patholeg Ranbarthol

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi cael ei hardystio. Disgwylir yr achos busnes amlinellol ddechrau 2021 a'r achos busnes llawn ddechrau 2022. Rhagwelir y bydd y prif waith yn cael ei gwblhau erbyn 2025 a'r gwaith adnewyddu lleol yn cael ei gwblhau erbyn 2026.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad hwn (tua £77m) yn cefnogi datblygiad Labordy Patholeg Cellog Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru, Labordy Imiwleg Diagnostig Rhanbarthol a chyfleuster Microbiolog Feddygol Rhanbarthol yn Ysbyty Treforys, Abertawe ynghyd ag adnewyddu cyfleusterau lleol ar draws y rhanbarth.

14. Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Golchdai

Cyllid a chyflawni

Cyllid Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes. Cymeradwywyd yr achos busnes cychwynol ym mis Tachwedd 2020 – bydd achosion busnes amlinellol/terfynol yn cael eu cyflwyno maes o law.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ansawdd gwael golchdai presennol y GIG ac yn ceisio rhesymoli ac uwchraddio seilwaith ac offer i wella gwasanaethau a chynnal gweithrediadau.

15. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Uned Sterileiddio a Dadhalogi Ysbytai

Cyllid a chyflawni

Cyllid LIC. Cymeradwywyd yr achos busnes llawn yn ystod gwanwyn 2019 – mae'r gwaith wedi cychwyn a bydd wedi'i orffen erbyn 2021.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu Uned Sterileiddio a Dadhalogi newydd i gefnogi Ysbyty Athrofaol y Faenor sydd newydd ei agor.

Atodiad 2 – Llif prosiectau Awdurdodau Lleol Cymru

Mae'r adran ganlynol yn cynnwys disgrifiad manwl o holl gynlluniau awdurdodau lleol Cymru lle mae cyfanswm gwerth y cynlluniau yn fwy na £2m; ac mae'r cynllun wrthi'n cael ei ddarparu, neu mae i fod i ddechrau yn y tair blynedd nesaf. Oherwydd y ffordd mae rhai cynlluniau'n cael eu hariannu, dylid nodi bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng data Llywodraeth Cymru a data Awdurdodau Lleol (er enghraifft, mae Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cael ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'i hariannu'n rhannol gan awdurdodau lleol). Amcangyfrifon yw'r ffigurau, ac maent yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael, wedi'u talgrynnu i ddau le degol.

Blaenau Gwent

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Gwaith Gwella Priffyrdd	£3.6m	2018	2021
2. Lime Avenue	£6.5m	2018	2021
3. Coridor Gogleddol Glyn Ebwy	£1.1m	2014	2024
4. Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	£5.5m	2017	2027
5. Ysgolion yr 21ain Ganrif	£26m	2020	2026
6. Gofal Plant	£4.1m	2019	2022
7. Canolfan Ailgyrchu Gwastraff Cartrefi	£2.8m	2020	2021
8. Safle Gwaith y Parc Cyflogaeth	£12m	2021	2022
9. Adeilad Monwel Hankinson	£7.5m	2021	2021

1. Gwaith Gwella Priffyrdd

Cyllid a chyflawni

£2.1m Awdurdod Lleol (ALI)

£1.5m Llywodraeth Cymru (LIC).

Gwybodaeth ychwanegol

Rhoi wyneb newydd ar amrywiol lwybrau drwy'r Fwrdeistref.

Lleoliad: Amrywiol leoliadau ledled y Fwrdeistref.

2. Lime Avenue

Cyllid a chyflawni

£2.5m EU, £3.5m LIC, £0.5m ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Creu unedau busnes hybrid ar gyn-safle'r gweithfeydd yng Nglyn Ebwy i ddarparu lle newydd i gynorthwyo datblygiad mentrau bach a chanolig i wella creu swyddi yn yr ardal.

Lleoliad: Glyn Ebwy.

3. Coridor Gogleddol Glyn Ebwy

Cyllid a chyflawni

£1.1m LIC/UE – Gwaith Gwella Carthffosydd.
Nid yw buddsoddiad LIC a'r sector preifat yn hysbys ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Creu cyfres o ddatblygiadau sy'n ategu ac yn gwella bywiogrwydd Glyn Ebwy fel cymuned gynaliadwy. Datblygiad preswyl, gwell cyfle economaidd, a chyfleusterau hamdden. Bydd Gwaith Gwella Carthffosydd Ardal Fenter Glyn Ebwy yn galluogi safleoedd ar hyd Coridor Gogledd Glyn Ebwy i fod yn barod i'w datblygu.

Lleoliad: Glyn Ebwy.

4. Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cyllid a chyflawni

£5.54m cyfraniad cyllid cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) ar sail cyfran y boblogaeth o £120m, cyfanswm cyfraniad yr ALL.

Gwybodaeth ychwanegol

Cyfanswm y CCRCD (ac eithrio'r Metro) yw £495m ac mae'n cynnwys 10 ALL gyda Chyngor Caerdydd yn Awdurdod Arweiniol. Mae £375m o gyllid wedi'i ymrwymo gan Lywodraeth y DU ac mae £120m i ddod gan y 10 Awdurdod Lleol. Mae prosiectau a rhaglenni wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

5. Ysgolion yr 21ain Ganrif

Cyllid a chyflawni

Cyllid ALL a LIC – Gwaith cyflawni'n mynd rhagddo. Cyfanswm cyllid LIC £19m.

Gwybodaeth ychwanegol

Lleoliad: Amrywiol ledled y Fwrdeistref.

6. Gofal Plant

Cyllid a chyflawni

LIC £4.1m.

Gwybodaeth ychwanegol

Adeiladu sefydliadau blynyddoedd cynnar.

Lleoliad: Amrywiol ledled y Fwrdeistref.

7. Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi

Cyllid a chyflawni

LIC £2.8m.

Gwybodaeth ychwanegol

Creu Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi newydd yn ardal Abertyleri.

8. Safle Gwaith y Parc Cyflogaeth

Cyllid a chyflawni

LIC £12m.

Gwybodaeth ychwanegol

Adeiladu unedau Diwydiannol. Mae Adfywio'n cynnal trafodaethau gyda LIC ynghylch a fydd hyn yn cael ei gomisiynu drwy'r Awdurdod Lleol neu drydydd parti.

9. Adeilad Monwel Hankinson

Cyllid a chyflawni

LIC £7.5m. Cyllid i'w gadarnhau.

Gwybodaeth ychwanegol

Estyniad ail lawr i'r adeilad presennol i ddarparu hyb sgiliau yn y dyfodol.

Pen-y-bont ar Ogwr

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B	£54.4	2021	2026
2. Cynlluniau Priffyrdd Ysgolion Band B	£3.4m	2021	2022
3. Goleuadau Stryd Newydd	£2.5m	2018	2021
4. Teithio llesol Parc Technoleg Pencoed	£2.4m	2021	2022
5. Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	£47m	2018	2029
6. Adnewyddu Cerbydgyrdd a Throedffyrdd	£4.5m	2018	2022
7. Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol	£6m	2020	2023
8. Adfywio Porthcawl	£2.6m	2020	2022
9. Rhaglen Ddatblygu Cwm Llynfi	£2.2m	2021	2022
10. Neuadd y Dref Maesteg	£7m	2018	2022
11. Rhwydwaith Gwres Caerau	£6.2m	2020	2024
12. Hybiau Menter	£2m	2018	2023
13. Cartrefi Gofal Ychwanegol	£3m	2017	2021
14. Uwchraddio Waterton	£8m	2021	2022
15. Ffocws Buddsoddi Cyrchfan Porthcawl	£2.2m	2016	2021

1. Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B

Cyllid a chyflawni

£20.4m Awdurdod Lleol (ALI),
£34m Llywodraeth Cymru (LIC).

Gwybodaeth ychwanegol

Lleoliadau i'w pennu.

2. Cynlluniau Priffyrdd Ysgolion Band B

Cyllid a chyflawni

£3.4m ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Lleoliadau i'w pennu.

3. Goleuadau Stryd Newydd

Cyllid a chyflawni

£2.5m ALI (drwy fenthyciad Salix).

Gwybodaeth ychwanegol

Uwchraddio i lusernau LED ar gyfer colofnau goleuadau stryd mewn amrywiol lleoliadau ar draws y Fwrdeistref.

4. Teithio llesol Parc Technoleg Pencoed

Cyllid a chyflawni

£2.4m LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Pecyn teithio llesol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr – Pencoed.

5. Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cyllid a chyflawni

ALI £10m, HMT £37m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Fargen Ddinesig yn rhaglen y cytunwyd arni yn 2016 rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol yn y De-ddwyrain i sicrhau twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth drwy fuddsoddi, uwchsgilio, a gwell cysylltedd ffisegol a digidol.

6. Adnewyddu Cerbydgyrdd a Throedgyrdd

Cyllid a chyflawni

ALI £4.5m.

Gwybodaeth ychwanegol

Amrywiol welliannau i'r seilwaith ffyrdd ar draws y Fwrdeistref.

7. Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

Cyllid a chyflawni

ALI £1.5m, £4.5m LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwaith rheoli risg arfordirol ym Mhorthcawl.

8. Adfywio Porthcawl

Cyllid a chyflawni

ALI £2.6m.

Gwybodaeth ychwanegol

Adfywio Porthcawl.

9. Rhaglen Ddatblygu Cwm Llynfi

Cyllid a chyflawni

Benthyciad LIC £2.2m.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwaith adfywio yng Nghwm Llynfi.

10. Neuadd y Dref Maesteg

Cyllid a chyflawni

ALI £2.6m, £2.6m ERDF, £0.6m Grant Loteri, £0.6m LIC, £0.6m cyllid allanol amrywiol.

Gwybodaeth ychwanegol

Prosiect yn cynnwys adnewyddu Neuadd y Dref Maesteg.

11. Rhwydwaith Gwres Caerau

Cyllid a chyflawni

ALI £1.1m, £5.1m ERDF.

Gwybodaeth ychwanegol

Cynllun gwres arloesol i ddarparu ynni i gartrefi yng Nghaerau.

12. Hybiau Menter

Cyllid a chyflawni

1.5m ERDF, £0.5m ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y prosiect yn cynnwys adnewyddu Canolfan Fenter ac adeiladu unedau diwydiannol newydd. Gwaith adeiladu i ddechrau yn 2019-20.

13. Cartrefi Gofal Ychwanegol

Cyllid a chyflawni

ALI £3m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Linc yn gweithio gyda Chyngor Pen-y-bont tuag at ddarparu dau gynllun Gofal Ychwanegol newydd yn y Fwrdeistref. Mae'r ddau gynllun yn cynnwys cyfleusterau Gofal Preswyl ar y llawr gwaelod gyda fflatiau Gofal Ychwanegol uwchben ynghyd â chyfleusterau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o 70 o unedau, sef 45 uned gofal ychwanegol a 25 uned gofal preswyl.

Lleoliad: Heol-yr-Ysgol, Pen-y-bont ar Ogwr. Heol Pen-y-bont, Maesteg.

14. Uwchraddio Waterton

Cyllid a chyflawni

ALI £8m.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhesymoli ac Adnewyddu'r Depo Priffyrdd.

15. Ffocws Buddsoddi Cyrchfan Porthcawl

Cyllid a chyflawni

ERDF £1.3m, LIC £0.3m, ALI £0.6m.

Gwybodaeth ychwanegol

Y prosiect yn cynnwys adeiladu Canolfan Chwaraeon Dŵr newydd yn Rest Bay, Porthcawl. Yn y cam adeiladu yn ystod 2019-20.

Caerffili

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Gwella Priffyrdd	£2.2m	2020	2023
2. Rhaglen Goleuadau Stryd Salix	£4.25m	2019	2021
3. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)	£261m	2017	2021
4. Y Cyfrif Refeniw Tai – Strategaeth Rheoli Ôl-Asedau	30 y flwyddyn	2021	Yn parhau
5. Y Cyfrif Refeniw Tai – Adeiladu Newydd	£53m	2020	2025
6. Canolfan Plant ag Anghenion Cymhleth	£3.1m	2022	2025
7. Cynllun Ansawdd Aer Hafodyrnys	£6.1m	2019	2022
8. Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu	£2m	2021	2022
9. Tŷ Du – Safle cyflogaeth	£2.05m	2019	2021
10. Stad Ddiwydiannol Lawns – unedau	£2.2m	2019	2021

1. Gwella Priffyrdd

Cyllid a chyflawni

Cyllid o £2.22m gan yr Awdurdod Lleol (ALI).

Gwybodaeth ychwanegol

Gwelliannau wedi'u cyfyngu i gynnwys dulliau ac arferion peirianeg modern er mwyn ymestyn oes ffyrdd a lleihau costau cynnal a chadw i'r dyfodol i'r graddau mwyaf posibl. Rhoddir blaenoriaeth i lwybrau strategol; ffyrdd gyda gwariant uchel ar atgyweirio dros dro a ffyrdd sy'n cynhyrchu nifer uchel o hawliadau trydydd parti. Gwaith yn mynd rhagddo.

2. Rhaglen Goleuadau Stryd Salix

Cyllid a chyflawni

Benthyciad Salix o £4.14m wedi'i gymeradwyo. £110k cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) ei hun (cyllideb gyfalaf goleuadau stryd).

Gwybodaeth ychwanegol

Cynllun wedi dechrau ym Mawrth 2019. Adnewyddu'r holl oleuadau stryd presennol ar draws y Sir gan osod technoleg LED.

3. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Cyllid a chyflawni

60% cyllid ALI (HRA) Benthycia 20%/ Grant (MRA) 20%.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwaith i'w gwblhau erbyn y dyddiad cau estynedig, o fis Rhagfyr 2021.

Lleoliad: Ledled y sir.

4. Y Cyfrif Refeniw Tai – Strategaeth Rheoli Ôl-Asedau

Cyllid a chyflawni

80% cyllid ALI (HRA)/Grant (MRA) 20%.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaglen 30 mlynedd i gynnal y buddsoddiad o £261m i gyrraedd SATC.

5. Y Cyfrif Refeniw Tai – Adeiladu Newydd

Cyllid a chyflawni

Cyllid ALI (HRA)/Grant LIC/Benthyca £30m.

Gwybodaeth ychwanegol

Penderfynir ar gyllid LIC gan ddefnyddio'r model SVM, felly mae'n gallu amrywio o un prosiect i'r llall. Cynnig i adeiladu 400 o gartrefi newydd erbyn 2025.

6. Canolfan Plant ag Anghenion Cymhleth

Cyllid a chyflawni

Cyllid o £3.1m gan yr ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Darparu Canolfan Blant newydd sy'n addas i'r diben i ateb y galw cynyddol am y gwasanaeth hwn. Mae'r gyllideb wedi'i chymeradwyo, bydd y prosiect yn dechrau unwaith y bydd lleoliad addas wedi'i ganfod.

7. Cynllun Ansawdd Aer Hafodrynys

Cyllid a chyflawni

Rhaglen a ariennir gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Prynu a dymchwel tŷ yn Hafodrynys er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth berthnasol o dan Gyfarwydddeb Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Dichonoldeb ar gyfer Cydymffurfiaeth Nitrogen Deuocsid) 2019.

8. Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu

Cyllid a chyflawni

Wedi'i ariannu gan yr ALI yn bennaf a £600k gan LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Adnewyddu ac ailwneud Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Chwefror 2021.

9. Tŷ Du – Safle cyflogaeth

Cyllid a chyflawni

CBSC £360k arian cyfatebol; grant LIC £350k; grant ERDF £1.34m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Tŷ Du, Nelson, wedi ei nodi fel Safle Cyflogaeth Strategol gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2016, rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad mawr defnydd cymysg ar safle ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r uwchgynllun ar gyfer y safle yn cynnwys datblygiad defnydd cymysg o hyd at 200 o dai a hyd at 3.8ha o ofod llawr cyflogaeth B1. Mae cyfle wedi codi i'r Cyngor allu cydweithio â LIC i ddarparu unedau cyflogaeth yn Nhŷ Du.

10. Stad Ddiwydiannol Lawns – unedau

Cyllid a chyflawni

CBSC £710k arian cyfatebol; grant ERDF £1.49m.

Gwybodaeth ychwanegol

Adeiladu unedau diwydiannol newydd ar stad ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni. Yn gyffredinol, bydd y prosiect arfaethedig yn canolbwyntio ar ddatgloi, mewn dau gam, oddeutu 1.3 hectar o dir llwyd, nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, wedi'i leoli ym mhen deheuol Stad Ddiwydiannol y Lawnt, sy'n eiddo i'r Cyngor. Pan fydd wedi'i ddatblygu'n llawn, mae gan y tir botensial i ddarparu lle ar gyfer oddeutu 20 o unedau busnes bach, modern.

Caerdydd

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg Band B	£105m	Yn parhau	2024
2. Adnewyddu ac Addaswydd Asedau Eiddo – Ysgolion	£28.4m	Yn parhau	Yn parhau
3. Adnewyddu Asedau Eiddo – Heb fod yn Ysgolion	£5.5m	Yn parhau	Yn parhau
4. Addaswydd a Digonolrwydd Ysgolion	£3m	Yn parhau	Yn parhau
5. Ailwynebu Priffyrdd a Throedffyrdd	£16.9m	Yn parhau	Yn parhau
6. Strwythurau Priffyrdd	£3.5m	Yn parhau	Yn parhau
7. Llwybr Troed y Mileniwm	£1.9m	2021	2022
8. Goleuadau Stryd gan gynnwys Effeithlonrwydd Ynni	£8.8m	2021	2023
9. Rheoli Traffig, Cludiant Cyhoeddus, Telemateg a Thwnnel Tre-biwt	£11.1m	Yn parhau	Yn parhau
10. Datblygu Rhwydwaith Beicio Strategol	£6.8m	Yn parhau	Yn parhau
11. Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cyfraniad y Cyngor i'r Gronfa Fuddsoddi	£55.4m	Yn parhau	Yn parhau
12. Erydu Arfordirol a Risg Llifogydd	£2.7m	Yn parhau	2022
13. Argae Parc y Rhath ac Ardal Parc y Rhath	£2.8m	Yn parhau	2024
14. Seilwaith Rheoli Gwastraff	£4.4m	Yn parhau	Yn parhau
15. Fferm Solar a Rhwydwaith Gwres Ardal	£16.4m	Yn parhau	2019
16. Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl (yn cynnwys Tai Cyhoeddus)	£24.1m	Yn parhau	Yn parhau
17. Moderneiddio TGCh i Wella Prosesau Busnes	£3.2m	Yn parhau	Yn parhau
18. Cyfraniad at arena a gweddill cost caffael safle	£30m	2021	2024
19. Datblygiad Llanrhymini	£7.5m	2021	2024
20. Strategaeth y Swyddfa Graidd	£8.2m	2020	2023
21. Fflyd Cerbydau Newydd	£11.5m	2020	2023
22. Gwasanaethau Trafndiaeth Dinas Caerdydd Cyf	£6.6m	2021	2022
23. Tai Cyhoeddus	£287m	2021	2024

1. Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg Band B

Cyllid a chyflawni

Awdurdod Lleol (ALI)/Llywodraeth Cymru (LIC) yn ôl cyfraddau ymyrraeth – Amcangyfrif o gyfanswm cost yr amlen/ y llwybr caffael heb ei gadarnhau eto.

Gwybodaeth ychwanegol

Llywodraeth Cymru, Cyllid Band B ym amodol ar gymeradwyaeth, cyllid y Cyngor ei hun ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau i wella cyfleusterau ysgolion a seilwaith yng Nghaerdydd.

Lleoliad: Ledled y sir.

2. Adnewyddu ac Addasrwydd Asedau Eiddo – Ysgolion

Cyllid a chyflawni

ALI £28.4m – Fframwaith/adran fewnol Rheoli Cyfleusterau.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhoi sylw i gyflwr stoc eiddo'r Cyngor yn unol â chynlluniau a gwaith blaenoriaeth Rheoli Asedau'r Gyfarwyddiaeth.

Lleoliad: Ledled y sir.

3. Adnewyddu Asedau Eiddo – Heb fod yn Ysgolion

Cyllid a chyflawni

ALI £5.5m – Yn bennaf, defnyddio adran fewnol Rheoli Cyfleusterau.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhoi sylw i gyflwr stoc eiddo'r Cyngor nad ydynt yn ysgolion yn unol â chynlluniau a gwaith blaenoriaeth Rheoli Asedau'r Gyfarwyddiaeth.

Lleoliad: Ledled y sir.

4. Addasrwydd a Digonolrwydd Ysgolion

Cyllid a chyflawni

ALI £3m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Darparu ar gyfer materion hygyrchedd cynyddol mewn ysgolion. Gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblïo ag anghenion hygyrchedd, rhoi sylw i'r cynnydd yn niferoedd disgyblïo a gwaith angenrheidiol i wella cyfleusterau mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Lleoliad: Ledled y sir.

5. Ailwynebu Priffyrdd a Throedffyrdd

Cyllid a chyflawni

ALI £15.3m – Contractwyr fframwaith.
Grant LIC £1.6m.

Gwybodaeth ychwanegol

Dyraniad ar gyfer ailwynebu ac ailadeiladu priffyrdd a throedffyrdd, gan gynnwys rhoi sylw i gyflwr gwreiddiau coed a thyllau coed ar droedffyrdd a rhoi ymylon isel i balmentydd.

Lleoliad: Ledled y sir.

6. Strwythurau Priffyrdd

Cyllid a chyflawni

ALI £3.5m – Contractwyr allanol fesul prosiect, oherwydd gofynion arbenigol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cryfhau ac adnewyddu pontydd, ceuffosydd a strwythurau priffyrdd eraill is-safonol fel rhan o'r cynllun Rheoli Asedau Seilwaith Priffyrdd.

Lleoliad: Ledled y sir.

7. Llwybr Troed y Mileniwm

Cyllid a chyflawni

ALI £1.9m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Adnewyddu arwyneb pren Llwybr Troed y Mileniwm, sy'n dod at ddiwedd ei oes disgwylidig, gan ddefnyddio pren newydd neu ddeunyddiau eraill. Mae'r llwybr troed yn darparu cyswllt rhwng Wood Street a Heol y Bont-faen, ynghyd â mynediad i mewn ac allan o Stadiwm Principality.

8. Goleuadau Stryd gan gynnwys Effeithlonrwydd Ynni

Cyllid a chyflawni

ALI £8.8m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Adnewyddu colofnau, gosod goleuadau LED preswyl newydd a gwaith trydanol fel rhan o'r cynllun Rheoli Asedau Seilwaith Priffyrdd.

Lleoliad: Ledled y sir.

9. Rheoli Traffig, Cludiant Cyhoeddus, Telemateg a Thwnnel Tre-biwt

Cyllid a chyflawni

ALI £11.1m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwelliannau strategol a lleol i'r rhwydwaith gan gynnwys gwelliannau i gyffyrdd a diogelwch cerddwyr, gyda ffocws ar sicrhau cyllid cyfatebol. Angen adnewyddu'r seilwaith telemateg ar gyfer gweithrediad parhaus y twnnel a'r seilwaith trafndiaeth. Cyfnewidfa fysiau newydd yng Ngorllewin y Ddinas a dylunio a gweithredu cynlluniau blaenoriaeth o ran trafndiaeth ac ansawdd aer.

Lleoliad: Ledled y sir.

10. Datblygu Rhwydwaith Beicio Strategol

Cyllid a chyflawni

ALI £6.8m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Gweithredu a chyllid cyfatebol ar gyfer y strategaeth beicio. Amrywiol lwybrau beicio presennol a chreu gwelliannau i'r rhwydwaith neu ddolenni coll rhwng llwybrau. Maent yn cynnwys gosod manau parcio beiciau a gwelliannau i'r rhwydwaith yn ogystal â chefnogi cyllid cyfatebol tuag at grantiau Llywodraeth Cymru a theithio llesol.

Lleoliad: Ledled y sir.

11. Bargaen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cyfraniad y Cyngor i'r Gronfa Fuddsoddi

Cyllid a chyflawni

ALI £18.8m/ALI £36.6m Cost trosglwyddo a Chronfa BBaCh/Arall ALI/LIC/HMT – Llwybrau cyflawni i'w pennu fesul prosiect.

Gwybodaeth ychwanegol

Cyfraniad y cyngor at y Gronfa Fuddsoddi.

Lleoliad: Rhanbarthol.

12. Erydu Arfordirol a Risg Llifogydd

Cyllid a chyflawni

ALI £2.7m/Grantiau LIC yn amodol ar gymeradwyaeth.

Gwybodaeth ychwanegol

Cynlluniau risg llifogydd bach ac arian cyfatebol tuag at gynllun i reoli risg llifogydd ac erydu yn aber Afon Rhymni, gan gynnwys diogelu deunydd tirlenwi, seilwaith ffyrdd allweddol a Safle Teithwyr Rover Way. Mae'r gwaith gweithredu yn amodol ar ddylunio, amcangyfrifon o gyfanswm y gost a dyfarniad grant llwyddiannus gan LIC.

13. Argae Parc y Rhath ac Ardal Parc y Rhath

Cyllid a chyflawni

ALI £2.8m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Ystyrir y gwaith yn angenrheidiol fel rhan o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, yn dilyn adroddiad archwilio a gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gost yn amodol ar werthuso opsiynau, dylunio manwl ar yr opsiwn a argymhellir ac effaith ar nodweddion eraill y Parc Hanesyddol a restrwyd ar Radd 1.

14. Seilwaith Rheoli Gwastraff

Cyllid a chyflawni

ALI £4.4m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Datblygu Canolfan Newydd i Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau a seilwaith arall o ran rheoli a chasglu gwastraff. Ehangu'r gwasanaeth casglu gwydr ar wahân ledled y ddinas.

15. Fferm Solar a Rhwydwaith Gwres Ardal

Cyllid a chyflawni

ALI £1.3m/Grant HNIP £6.6m/Benthyciad LIC £8.5m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cwblhau Fferm Solar yn hen safle tirlenwi Ffordd Lamby a chreu Rhwydwaith Gwres Ardal.

16. Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl (yn cynnwys Tai Cyhoeddus)

Cyllid a chyflawni

ALI £24.1m – Contractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

I ddarparu addasiadau fel cawodydd, lifftiau grisiau a newidiadau mewnol i alluogi'r derbynnydd i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun.

Lleoliad: Ledled y sir.

17. Moderneiddio TGCh i Wella Prosesau Busnes

Cyllid a chyflawni

ALI £3.2m – Contractwyr allanol/staff mewnol fesul prosiect.

Gwybodaeth ychwanegol

Buddsoddi mewn prosiectau technoleg gan gynnwys: Diweddarau Gweinyddion, Gwytnwch, System Rheoli Dogfennau, a Digiddeiddio, gan alluogi'r Cyngor i wneud gwelliannau i brosesau busnes a thrwy hynny wella darpariaeth gwasanaeth y gyfarwyddiaeth.

Lleoliad: Ledled y sir.

18. Cyfraniad at arena a gweddill cost caffael safle

Cyllid a chyflawni

ALI £30m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cyfraniad y Cyngor at weddill costau caffael tir a chostau adeiladu.

19. Datblygiad Llanrhymni

Cyllid a chyflawni

ALI £7.5m – Contractwyr allanol/Partner Datblygu.

Gwybodaeth ychwanegol

Pont a chyswllt ffordd newydd rhwng ystad Llanrhymni a'r A48 fel rhan o Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd. Yn amodol ar arfarniad opsiynau, hyfywedd a derbynnyddau tir.

20. Strategaeth y Swyddfa Graidd

Cyllid a chyflawni

ALI £8.2m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Caniatáu cydgrynhoi mewn adeiladau amgen.

21. Fflyd Cerbydau Newydd

Cyllid a chyflawni

ALI £11.5m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cerbydau yn lle'r fflyd cerbydau gwastraff.

22. Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf

Cyllid a chyflawni

ALI £6.6m – Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Tuag at becyn cymorth i Cardiff City Transport Services Limited.

23. Tai Cyhoeddus

Cyllid a chyflawni

ALI £262m, Grant a Chyfraniadau LIC £25m – Contractwyr Allanol a'r gwasanaeth Cynnal a Chadw Tai.

Gwybodaeth ychwanegol

Buddsoddi mewn adfywio stadau, ailfodelu stoc, cynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru a rhaglen adeiladu o'r newydd.

Lleoliad: Ledled y sir.

Sir Gaerfyrddin

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Start	Dyddiad gorffen
1. Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A	£86.7m	2013	2021
2. Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B	£129.5m	2019	2026
3. Gwella Priffyrdd	£10.19m	2020	2025
4. Cryfhau Pontydd Rheilffordd	£2.5m	2020	2025
5. Fflyd Cerbydau Newydd	£10.7m	2020	2025
6. Gwaith Trydanol Neuadd y Sir	£2.5m	2021	2025
7. Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands Cam 2	£14.7m	2015	2021
8. Cysyniad Coridor Cludiant Dyffryn Tywi	£7.5m	2015	2022
9. Cysylltiadau Cerdded a Beicio	£6.5m	2015	2023
10. Cronfa Menter Wledig	£4m	2016	2022
11. Cronfa Ddatblygu Gweddnewid Eiddo Masnachol	£6.66m	2016	2022
12. Cronfa Adfywio'r Sir	£27m	2019	2025
13. Bargen Ddinesig Bae Abertawe – Pentref Llesiant Llanelli (Pentre Awel)	£40m	2019	2023
14. Canolfan Hamdden Llanelli	£16.5m	2019	2023
15. Adolygiad Ardal Llanelli	£7m	2019	2023
16. Y Cyfrif Refeniw Tai	£101.3m	2020	2024
17. Cynnal a Chadw Cyfalaf	£15.2m	2020	2025
18. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	£10m	2020	2025
19. Datblygiadau Strategaeth TG	£2.5m	2020	2024

1. Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A

Cyllid a chyflawni

Awdurdod Lleol (ALI) £43.35m a Llywodraeth Cymru (LIC) £43.35m.

Gwybodaeth ychwanegol

Lleoliad: Ledled y sir.

2. Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B

Cyllid a chyflawni

ALI £40m a LIC £89.5m.

Gwybodaeth ychwanegol

Lleoliad: Ledled y sir.

3. Gwella Priffyrdd

Cyllid a chyflawni

ALI £3m a Grant LIC £3m
(22-22 a 23-20) – Amrywiol – contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Ailadeiladu ac ailwynebu priffyrdd er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad o waith atgyweirio sy'n aros i'w wneud.

Lleoliad: Ledled y sir.

4. Cryfhau Pontydd Rheilffordd

Cyllid a chyflawni

ALI £2m – Amrywiol – contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Adeiladu ac uwchraddio pontydd rheilffordd.

Lleoliad: Ledled y sir.

5. Fflyd Cerbydau Newydd

Cyllid a chyflawni

ALI £10.7m – prynu'n uniongyrchol gan wahanol weith gynhyrchwyr.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaglen wedi'i hamserlennu i brynu cerbydau fflyd newydd gan gynnwys: cerbydau casglu sbwriel, cerbydau gofal cymdeithasol a bysiau addysg.

6. Gwaith Trydanol Neuadd y Sir

Cyllid a chyflawni

£2.5m – ALI – contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaglen o uwchraddio i systemau trydanol yn neuadd y sir, Caerfyrddin, sydd wedi'i rhestru'n radd ii.

7. Ffordd Gyswilt Economaidd Cross Hands Cam 2

Cyllid a chyflawni

ALI £3.08m, Cyllid grant £11.62m.

Gwybodaeth ychwanegol

Ffordd newydd o Heol y Llew Du, Gorslas, i'r A476 i'r gogledd-ddwyrain o Gorslas. Bydd y ffordd yn lleihau tagfeydd wrth gylchfan yr A48, Cross Hands a'r gyffordd 6-ffordd yng Ngorslas ac yn darparu mynediad uniongyrchol i Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

8. Cysyniad Coridor Cludiant Dyffryn Tywi

Cyllid a chyflawni

ALI £2.85m, Cyllid grant £4.65m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mynediad gwell ar gyfer beicwyr a cherddwyr i atyniadau twristaidd ar hyd rhan isaf Dyffryn Tywi (Caerfyrddin i Landeilo).

Lleoliad: Rhan isaf Dyffryn Tywi.

9. Cysylltiadau Cerdded a Beicio

Cyllid a chyflawni

ALI £0.43m, Cyllid grant LIC £6.07m.

Gwybodaeth ychwanegol

Datblygu rhwydwaith o gysylltiadau cerdded a beicio i wella mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau eraill.

Lleoliad: Ledled y sir.

10. Cronfa Menter Wledig

Cyllid a chyflawni

ALI £2.m, Cyllid grant £2m.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y Grant yn darparu cymorth i fentrau a masnachwyr unigol ar gyfer datblygu eiddo busnes presennol a newydd.

Lleoliad: Ledled y sir.

11. Cronfa Ddatblygu Gweddnewid Eiddo Masnachol

Cyllid a chyflawni

ALI £3.m, Cyllid grant £3.66m.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y cyllid ar gael i alluogi datblygwyr i lenwi'r bwlch ariannol rhwng costau adeiladu a gwerth yr eiddo ar y farchnad wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.

Lleoliad: Ledled y sir.

12. Cronfa Adfywio'r Sir

Cyllid a chyflawni

ALI £9m, Cyllid allanol £18m – amrywiol – contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Prosiect cydweithredu gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector yn cydweithio i gyflawni adfywiad economaidd safleoedd cyflogaeth strategol y Sir, canol prif drefi, trefi marchnad, parthau twf y dyffryn a'r ardal arfordirol.

Lleoliad: Ledled y sir.

13. Bargaen Ddinesig Bae Abertawe – Pentref Llesiant Llanelli (Pentre Awel)

Cyllid a chyflawni

ALI £40m. Potensial ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat, ond heb ei sicrhau. Contractwyr allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Prosiect iechyd a hamdden £200m sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Cafodd y pentref llesiant a gwyddor bywyd yn Llanelli ei gefnogi gan gynghorwyr Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr. £40M o gyllid cyhoeddus ar gael.

Lleoliad: Llanelli.

14. Canolfan Hamdden Llanelli

Cyllid a chyflawni

ALI £12m, LIC/Menter ar y Cyd £4.5m.

Dyluniad mewnol, gyda phartneriaid a chontractwyr fframwaith.

Gwybodaeth ychwanegol

Adeiladu Canolfan Hamdden yn Llanelli ar y cyd â Phentref Llesiant Llanelli.

Lleoliad: Llanelli.

15. Adolygiad Ardal Llanelli

Cyllid a chyflawni

ALI £7m.

Gwybodaeth ychwanegol

Adolygiad o ddarpariaeth gofal yn Llanelli ar y cyd â Phentref Llesiant Llanelli.

Lleoliad: Llanelli.

16. Y Cyfrif Refeniw Tai

Cyllid a chyflawni

ALI £83m a LIC £18.3m – Contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwelliannau i stoc dai'r Cyngor dros gyfnod o dair blynedd gan gynnwys gwaith i gyflawni Safon Cartrefi Sir Gaerfyrddin.

Lleoliad: Ledled y sir.

17. Cynnal a Chadw Cyfalaf

Cyllid a chyflawni

ALI £14.60m – Amrywiol – contractwyr mewnol ac allanol.

Gwybodaeth ychwanegol

Cynnal a chadw cyfalaf ar holl adeiladau'r Awdurdod gan gynnwys swyddfeydd, ysgolion a sefydliadau gofal cymdeithasol.

Lleoliad: Ledled y sir.

18. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Cyllid a chyflawni

ALI £10m – Contractwyr allanol a'r asiantaeth Gofal a Thrwsio.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae gofyniad statudol i ddarparu'r grantiau hyn o dan ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Lleoliad: Ledled y sir.

19. Datblygiadau Strategaeth TG

Cyllid a chyflawni

ALI £2.5m – Arweinir gan yr adran TG corfforaethol gyda mewnbwn adrannol.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwella a chynnal darpariaeth TG o fewn yr awdurdod yn unol â gofynion cenedlaethol a'r strategaeth TG corfforaethol.

Lleoliad: Ledled y sir.

Ceredigion

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Rhaglen Cerbydau Newydd	3.5 yn 19-20 gyda 0.5m y flwyddyn wedi hynny	2019	Yn parhau
2. Rhaglen Adnewyddu Priffyrdd	£2.4m	2018	Yn parhau
3. Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol	£19m	2019	Yn parhau
4. Rhaglen Gwella Gweithfeydd Trin Carthion	£6.1m	2011	2023-24
5. Cylch Caron – Canolfan Adnoddau Cymunedol Integredig Tregaron	£13m	2013	Yn parhau
6. Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B	£14.5m	2019	2024
7. Llywodraeth Cymru – Grant Cyfalaf Gofal Plant.	£3.262m	2019	2021

1. Rhaglen Cerbydau Newydd

Cyllid a chyflawni

Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod Lleol (ALI).

Gwybodaeth ychwanegol

Dyma gynllun cam wrth gam dros nifer o flynyddoedd i gyflawni arbedion referniw cysylltiedig â rheoli fflyd. Bydd y fflyd casglu gwastraff yn cael ei hadnewyddu'n llwyr yn ystod 2019-20 a bydd rhaglenni yn y blynyddoedd dilynol yn canolbwyntio ar adnewyddu cerbydau llai, gan ystyried cerbydau mwy cynaliadwy/trydan.

2. Rhaglen Adnewyddu Priffyrdd

Cyllid a chyflawni

Rhaglen adnewyddu priffyrdd a gyllidir gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Gwybodaeth ychwanegol

Mae angen buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith priffyrdd er mwyn i'w cyflwr barhau'n addas i'r pwrpas ar er mwyn eu gwella yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae LIC wedi cydnabod yr angen/gofyniad hwn drwy fuddsoddiad cyfalaf i adnewyddu'r rhwydwaith priffyrdd.

3. Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

Cyllid a chyflawni

Ar hyn o bryd, mae dau gynllun ALI wedi'u cynnwys ar y rhaglen sydd bellach wedi'i hariannu 100% gan LIC ar gyfer datblygu cynlluniau ac 85% o gyllid LIC a 15% o gyllid ALI ar gyfer gwaith adeiladu.

Gwybodaeth ychwanegol

Cyllid ar gyfer cyflawni cynlluniau amddiffynfeydd rhag llifogydd ac erydu arfordirol yn Aberaeron ac Aberystwyth dan Raglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru.

4. Rhaglen Gwella Gweithfeydd Trin Carthion

Cyllid a chyflawni

ALI £4.25m, Tai Ceredigion £1.85m – Gwaith yn cael ei gyflawni mewn pecynnau fesul cam.

Gwybodaeth ychwanegol

Diweddariad ar y mabwysiadu gan Dŵr Cymru – mae gorsaf bwmpio a 3 gwaith trin carthion wedi'u mabwysiadu. Mae dau safle yn mynd drwy'r broses fabwysiadu. Cwblhawyd yr holl waith adeiladu ar 7 safle, heb unrhyw faterion cyfreithiol na thir ac mae'r pecynnau cais yn cael eu coladu. Pum safle i'w hadeiladu o hyd.

5. Cylch Caron – Canolfan Adnoddau Cymunedol Integredig Tregaron

Cyllid a chyflawni

Cyllid y prosiect (i'w gymeradwyo'n ffurfiol) yn cynnwys Tai LIC, Iechyd LIC, Cronfa Gyfalaf ICF LIC, Benthyciad FTC, LIC. Gweddill y cyllid gan y Partner Cyflawni (MWA), ALI a HDUHB. Cyfanswm gwerth y cynllun yn yr achos busnes llawn, oddeutu £13m.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae Cylch Caron yn brosiect blaenoriaeth gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion ac yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Tir wedi'i brynu.

6. Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B

Cyllid a chyflawni

Mae LIC yn ariannu'r rhaglen ar y gyfradd ymyrryd o 65% ar gyfer ysgolion ac mae 75% ar gyfer Canolfan y Môr, Cyngor Sir Ceredigion yn cael arian cyfatebol ar gyfer gweddill yr elfen. Prosiectau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Dyma brosiect fesul cam yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd ariannol a blynyddoedd academaidd. Defnyddir y grant hwn i ariannu estyniad a gwaith adnewyddu yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, adnewyddu Ysgol Gynradd Aberteifi ac i ariannu'r ysgol newydd ar gyfer ardal Dyffryn Aeron.

7. Llywodraeth Cymru – Grant Cyfalaf Gofal Plant

Cyllid a chyflawni

Ariennir drwy 100% o grant LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd y grant hefyd yn cynorthwyo gyda darpariaeth gofal plant a gofal plant cofleidiol ar gyfer ysgol newydd Dyffryn Aeron, estyniad i Ysgol Cenarth i wneud darpariaeth gofal plant ac adeilad pwrpasol newydd yn lle'r ddarpariaeth symudol ar gyfer Henry Richard a Ffrindiau bach yr Eos, Penparcau ar gyfer y gofal plant cyfredol a'r gofal plant cofleidiol.

Prosiect/Rhaglen	Cyfanswm gwerth y cynllun (amcan. £m)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B – Ariennir gan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol	£38.67m	2017	2024
2. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B – Cyllid Cyfalaf	£4.43m	2019	2024
3. Cynnal a Chadw/Gwella Cyflwr Rhwydwaith Ffyrdd y Sir	£9.14m	2013	Yn parhau
4. Cyllid Cyfatebol i Brosiectau	£9.11m	2013	Yn parhau
5. Rhaglen Cerbydau a Pheiriannau Newydd	£17.35m	2013	Yn parhau
6. Cynllun Rheoli Carbon	£2.44m	2013	Yn parhau
7. Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Newydd	£3.23m	2017	Yn parhau
8. Darparu Addasiadau mewn Tai Sector Preifat	£11.35m	2013	Yn parhau
9. Llety – Gwaith Adeiladu Mochdre	£3.9m	2015	Yn parhau
10. Ail-leoli Safle Amwynder Dinesig/Depo Priffyrdd	£2.31m	2017	Yn parhau
11. Polion Goleuadau Stryd Newydd	£2.3m	2012	Yn parhau
12. Rhaglen i Gryfhau Pontydd a Strwythurau Is-safonol – gan gynnwys y Rhaglen Cynnal a Chadw a Diogelu Rhag Erydu	£6.44m	Yn parhau. Cyllid wedi'i gynnwys o 2026-17 ymlaen	Yn parhau
13. Safle Cyflogaeth Ffordd Penmaen	£4.91m	2018	2021
14. Grant Gofal Plant 30 awr a Grant Darpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg	£5.43m	2019	2023
15. Rheoli Risg Arfordirol yn Llanfairfechan (Adeiladu)	£1.88m	2021	2023
16. Rheoli Risg Arfordirol ym Mae Penrhyn (Adeiladu)	£3.13m	2019	2021
17. Glan y Dŵr Bae Colwyn Cam 2B	£4.23m	2019	2023
18. Glan y Dŵr Bae Colwyn Cam 3 – Rhaglen Gwelliannau Arfordirol y Gogledd	£31.96m	2019	2023
19. Cynlluniau Lliniaru Llifogydd – Cam Adeiladu	£2.6m	2019	2022
20. Grant Cynnal Adeiladau Addysg	£2.23m	2019	2021

Conwy

21. Atgyweirio Pontydd a Strwythurau yn dilyn Digwyddiadau Niweidiol	£4.5m	2019	Yn parhau
22. Pier Fictoria Cam 3	£0.92m	2021	2021
23. Grant Adfer ar ôl Llifogydd	£1.8m	2021	2021
24. Grant Cyfalaf Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	£2.23m	2021	2022
25. Ymateb Covid Trafnidiaeth Gynaliadwy Leol	£1.64m	2021	2021
26. Llety CRT (Canolfan Teulu Douglas Road)	£1.08m	2021	2022
27. Canolfan Seibiant Anabled ym Mron y Nant	£4.7m	2019	2022
28. Tai Gofal Ychwanegol Bae Colwyn	£0.91m	2019	2022
29. Uned Asesu Plant Is-ranbarthol	£0.419m	2019	2022

1. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B – Ariennir gan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Cyllid a chyflawni

Ariennir drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) 81% Cyllid Llywodraeth Cymru (LIC) £29.75m a 19% o gyllid gan yr Awdurdod Lleol (ALI) £6.98m. Pryniant Tir wedi'i ariannu ar 65% LIC £.16m a 35% ALI £0.68m.

Gwybodaeth ychwanegol

Capelulo, Abergele, Llanfairfechan, Tywyn/Bae Cinnel, Llanddulas. Pob prosiect yn y cam dylunio a chymeradwyo. Proffil gwariant i'w gadarnhau. Yn cynnwys £1.94m gofyniad Prynu Tir ar 65% Cyllid LIC. Aros am gadarnhad.

2. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B – Cyllid Cyfalaf

Cyllid a chyflawni

Ariannu drwy Gyllid Cyfalaf Traddodiadol 75% cyllid LIC ar gyfer PRU/arbennig a 65% ar gyfer Prif ffrwd. Grant Llywodraeth Cymru gwerth £3.05m a £1.38m o gyllid ALI.

Gwybodaeth ychwanegol

Deganwy, Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos. Lleoliad y PRU i'w gadarnhau yn amodol ar adolygiad ADY. Pob prosiect yn y cam dylunio a chymeradwyo. Proffil gwariant i'w gadarnhau.

3. Cynnal a Chadw/Gwella Cyflwr Rhwydwaith Ffyrdd y Sir

Cyllid a chyflawni

ALI £5.05m benthycyca â chymorth, £0.07m cronfa wrth gefn, £1.49m Benthycyca Darbodus, £2.53m Grant LIC.

Gwybodaeth ychwanegol

Gwaith cynnal a chadw Priffyrdd Conwy. Gwella cyflwr rhwydwaith ffyrdd Conwy a rhoi wyneb newydd ar y rhwydwaith ffyrdd presennol.

Lleoliad: Ledled y sir.

4. Cyllid Cyfatebol i Brosiectau

Cyllid a chyflawni

ALI £9.11m o gyllid cyfatebol i ddwyn i mewn ffrydiau cyllido eraill. Contractwyr unigol wedi'u penodi ar gyfer cynlluniau neu gwneir cyfraniadau tuag at gynlluniau cymunedol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae darpariaeth cyllid cyfatebol y Prosiectau yn ddarpariaeth y gellir gwneud cais amdani lle bo cyllid cyfatebol yn ofynnol ar gyfer grantiau gan gyrrff allanol. Gall y ddarpariaeth hefyd ddarparu cyllid i grwpiau cymunedol ar gyfer amrywiol brosiectau.

Lleoliad: Ledled y sir.

5. Rhaglen Cerbydau a Pheiriannau Newydd

Cyllid a chyflawni

